



# **Safle Rheoli Ffiniau Gogledd Cymru**

Adroddiad ar yr Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol  
BCP21-002-05-00

Medi 2021



Mott MacDonald  
2 Sgwâr Callaghan  
Caerdydd CF10 5BT  
Y Deyrnas Unedig

T +44 (0)29 2046 7800  
mottmac.com

# Safle Rheoli Ffiniau Gogledd Cymru

Adroddiad ar yr Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol  
BCP21-002-05-00

Medi 2021

# Cofnod Dyroddiad ac Adolygu

Adolygiad	Dyddiad	Dechreuwr	Desg Talu	Cymeradwywr	Disgrifiydd
P1	06.07.21	AO	RP	JB	Argraffiad Drafft ar gyfer sylwadau gan y cleient
A	30.07.21	AO	RP	JB	Argraffiad terfynol ar ôl cael sylwadau gan y cleient
B	28.09.21	RM	RM	JB	Diwygiad yn dilyn newid i'r Cyfyngiad SDO arfaethedig

**Cyfeirnod y Ddogfen:** BCP21-002-05-00 | A

## Dosbarth Gwybodaeth: Safon

Cyhoeddwyd y ddogfen yma yn unig ar gyfer y parti a wnaeth ei gomisiynu ac am bwrpasu neilltuol yn ymwneud â'r prosiect sydd wedi ei gapsiyu uchod. Ni ddylir ddibynnu arno gan unrhyw barti arall na'i ddefnyddio am unrhyw bwrpas arall.

Ni dderbyniwn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniad o'r ddogfen yma'n cael ei dibynnu arni gan unrhyw barti arall, neu'n cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall, neu'n cynnwys unrhyw wall neu ddiffyg sydd oherwydd gwall neu ddiffyg yn y data a ddarperir i ni gan bartion eraill.

Mae'r ddogfen yma yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol ac eiddo perchnogaeth deallusol. Ni ddylid ei dangos i bartion eraill heb ein caniatad ni ac oddi wrth y parti a wnaeth ei chomisiynu.

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	1
<b>1 Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
1.1 Cefndir a Lleoliad y Safle	3
1.2 Gwaith Arolwg Blaenorol	4
1.3 Gwaith Arfaethedig	4
1.4 Cwmpas yr Adroddiad	5
<b>2 Cyd-destun Deddfwriaethol a Fframwaith Polisi</b>	<b>6</b>
2.1 Trosolwg	6
2.2 Deddfwriaeth	6
2.3 Polisi Cynllunio Cenedlaethol	6
2.4 Polisi Cynllunio Lleol	7
2.4.1 POLISI STRATEGOL PS 19: Gwarchod a lle bo'n berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol	7
2.4.2 POLISI AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol	7
2.4.3 POLISI AMG 6: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol	8
<b>3 Methodoleg</b>	<b>9</b>
3.1 Parth Dylanwad	9
3.2 Astudiaeth Ddesg	9
3.3 Astudiaeth Maes	10
3.4 Arolygon Archwilio Ystlumod	10
3.4.1 Archwiliadau Coed ar y Ddaear	10
3.5 Cyfyngiadau	11
<b>4 Canlyniadau</b>	<b>12</b>
4.1 Astudiaeth Ddesg	12
4.1.1 Safleoedd Dynodedig Statudol	12
4.1.2 Safleoedd Dynodedig Anstatudol	13
4.1.3 Nodi'r Cyrff Dŵr	13
4.1.4 Cofnodion Rhywogaethau a Warchodir	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
4.2 Ymweliad â'r Safle	15
4.2.1 Cynefinoedd	15
4.2.2 Rhywogaethau a Warchodir a Rhywogaethau a Nodir	17
4.2.3 Rhywogaethau Goresgynnol	17
4.2.4 Arolygon o'r Fadfall Ddŵr Gribog	17

<b>5</b>	<b>Gwerthusiad</b>	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
5.1	Safleoedd Dynodedig	18
5.2	Cynefinoedd	18
5.2.1	Planhigfa Coetir Llydanddail	18
5.2.2	Brigiad Caregog Naturiol Mewndirol	18
5.2.3	Glaswelltir Asid heb ei Wella	18
5.2.4	Merddwr	18
5.2.5	Tir Gwlyb	18
5.2.6	Cynefinoedd Eraill	18
5.3	Rhywogaethau a Warchodir neu Rywogaethau a Nodir	18
<b>6</b>	<b>Cyfyngiadau Ecolegol ac Asesiad Ecolegol</b>	<b>21</b>
6.1	Asesiad o'r Effeithiau Posibl	21
6.2	Crynodeb o'r Cyfyngiadau Ecolegol	23
<b>7</b>	<b>Argymhellion</b>	<b>24</b>
7.1	Arolwg Pellach (gan gynnwys Gwiriadau Cyn Gweithio) ac Asesiad	24
7.2	Lliniaru	24
7.3	Gwelliannau Ecolegol	25
7.4	Dilysrwydd Data'r Arolwg a'r Asesiad	25
<b>8</b>	<b>Casgliadau</b>	<b>27</b>
	<b>Atodiadau</b>	<b>28</b>
A.	Cynllun Cynefin Cyfnod 1	29
B.	Nodiadau Targed	30
C.	Cynllun o'r Safleoedd Dynodedig	36
D.	Ffotograffau	37
E.	Adroddiad yr Arolygon o'r Fadfall Ddŵr Gribog	39
	<b>Tablau</b>	
	Tabl 3.1: Parth Dylanwad ar gyfer yr Asesiad hwn	9
	Tabl 3.2: Dosbarthiad Addasrwydd Ystumod	11
	Tabl 4.1: Safleoedd Dynodedig Statudol o fewn 2 cilometr	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
	Tabl 4.2: Safleoedd Dynodedig Anstatudol o fewn 2 cilometr	13

Tabl 4.3: Rhywogaethau Adar Atodlen 1 o fewn 1 cilometr i'r Safle	13
Tabl 4.4: Rhywogaethau Infertebratau Adran 7	15
Tabl 4.5: Disgrifiad o Gynefinoedd	16
Tabl 5.1: Asesiad o Rywogaethau a Warchodir a/neu Rywogaethau a Nodir	19
Tabl 6.1: Asesiad o Effeithiau Posibl y Gwaith Arfaethedig	21

## Ffigyrau

Ffigur 1.1: Cynllun Lleoliad Safle Dangosol	3
---	---

# Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd Mott MacDonald Limited gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd ag Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol (PEA) o Blot 9 Parc Cybi, Caergybi i lywio datblygiad yn y dyfodol ar y safle arfaethedig fel Safle Rheoli Ffiniau (BCP). Mae'r adroddiad hwn yn dogfennu'r amodau gwaelodlin ac yn amlinellu unrhyw gyfyngiadau cysylltiedig i lywio'r gwaith arfaethedig.

Nododd astudiaeth ddesg fod y safle o fewn Ardal o Harddwch Naturiol (AHNE) Arfordir Ynys Môn / Anglesey, ac mae pump o safleoedd dynodedig statudol o fewn 2 cilometr yn cynnwys un Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), dwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a dwy Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Cafodd dau safle dynodedig anstatudol eu nodi hefyd o fewn 2 cilometr i'r safle. Lluniwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd<sup>1</sup> i lywio'r gwaith ac mae argymhellion wedi'u cynnwys i ddiogelu'r dynodiadau hyn.

Fe wnaeth chwiliad pen desg am gyrff dŵr yr ystyrir eu bod yn addas i gynnal madfallod dŵr cribog (*Triturus cristatus*) (GCN), nodi saith pwll a phedair ffos o fewn 500m i'r safle. Cynhaliwyd arolygon o fadfallod dŵr cribog (GCN) (gan gynnwys eDNA i gyrff dŵr o fewn 300m ac arolygon presenoldeb / absenoldeb i gyrff dŵr o fewn 250m) yn ystod misoedd Ebrill a Mai 2021. Canfu'r arolygon eDNA a phresenoldeb/absenoldeb ei bod yn debygol bod madfallod dŵr cribog yn absennol o fewn y safle ac ystyrir bod statws cadwraeth presennol madfallod dŵr cribog yn yr ardal a arolygwyd yn anffafriol.

Yn bennaf, mae'r safle'n cynnwys cyfleusterau lles, llawr caled a thir moel gydag un pwll gwanhau presennol a phwll gwanhau wedi'i osod yn ddiweddar a oedd wrthi'n cael ei adeiladu ar yr adeg yr ymwelwyd â'r safle. Mae cynefinoedd ymylol yn cynnwys glaswelltir wedi'i ledwella sy'n cael ei bori a thir pori brwynog gyda phrysgwydd, coetir planhigfa lydanddail, cloddiau pridd, a chynefinoedd blaenoriaeth - brigiadau caregog a glaswelltir asid, heb ei well. Ni chofnodwyd unrhyw rywogaethau planhigion goresgynnol yn ystod yr ymweliad â'r safle ar droed, fodd bynnag, nodwyd bod cofnodion o Jac y Neidiwr (*Impatiens glandulifera*) o fewn 1 cilometr.

Ystyrir bod yr amrywiaeth cynefinoedd sy'n bresennol ar y safle yn addas i gynnal rhywogaethau a warchodir neu rywogaethau a nodir, er bod hynny'n gyfyngedig yn sgil colli cynefin sylweddol o ganlyniad i waith adeiladu diweddar. Mae rhywogaethau/grwpiau rhywogaethau yn cynnwys adar, draenogod, amffibiaid, ymlusgiaid, infertebratau ac ystumod, moch daear a dyfrgwn yn porthi a chymudo. Nid ystyriwyd bod unrhyw goed ar y safle yn addas i gynnal ystumod yn clwydo oherwydd eu natur anaeddfed a diffyg nodweddion clwydo.

Ar sail y cyfyngiadau ecolegol a nodwyd, argymhellir yr arolygon neu'r gwiriadau cyn gweithio/methodoleg canlynol mewn perthynas ag ymlusgiaid, adar, dyfrgwn a moch daear:

- Gwiriad cyn gweithio am arwyddion yn y maes o foch daear a dyfrgwn, lle mae cynefin addas ar ôl;
- Dylid ymgymryd â gwaith clirio llystyfiant sensitif a dan oruchwyliaeth mewn cynefin addas yn unol â'r Datganiad Dull Ymlusgiaid, o fewn y cyfnod gweithgar ar gyfer ymlusgiaid, rhwng mis Mawrth a mis Hydref yn nodweddiadol (gan ddibynnu ar y tywydd);
- Symud y pwll gwanhau sydd newydd ei greu mewn modd sensitif, yn ystod y gaeaf yn ddelfrydol; a

<sup>1</sup> Mott MacDonald (2021) North Wales BCP Plot 9 Habitat Regulations Assessment. Cyfeirnod y Ddogfen: 100100943-MM-ENV-000-RP-NW-0004

- Chlirio y tu allan i dymor nythu adar os oes modd, rhwng Chwefror ac Awst (yn gynhwysol), neu dylai gwaith clirio dan oruchwyliaeth gael ei ragflaenu gan wiriad am nythod gweithgar.

Argymhellir bod y gwaith yn cael ei lywio gan Gynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP), sef mesur diogelu adeiladu cyffredinol ar gyfer bywyd gwylt a'r amgylchedd amgylchynol. Byddai cynefinoedd blaenoriaeth a choetir planhigfa lydanddail yn cael eu cadw a'u diffinio'n glir cyn i'r gwaith ddechrau. Byddai dyluniad goleuo sensitif yn cael ei roi ar waith i leihau golau yn disgyn ar nodweddion llinelllog/ffiniau'r safle ac i leihau effeithiau goleuadau artiffisial ar goridorau mamaliaid yn porthi/cymudo.

Tynnir sylw hefyd at gyfleoedd ar gyfer gwelliannau ecolegol y gellid eu hintegreiddio yn nyluniad y gwaith yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol.

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir a Lleoliad y Safle

Comisiynwyd Mott MacDonald Limited gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd ag Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol (PEA) o Blot 9 Parc Cybi, Caergybi i lywio datblygiad yn y dyfodol ar y safle arfaethedig fel Safle Rheoli Ffiniau (BCP).

Mae'r safle yn rhyw 6.4ha, wedi'i leoli i'r de ddwyrain o ganol tref Caergybi (cyfeirnod grid SH 25705 80439) ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ddefnyddio fel cyfleuster stacio Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV) brys gyda chyfleusterau lles ar gyfer staff ategol ac un pwll gwanhau presennol, ac mae pwll gwanhau ychwanegol wrthi'n cael ei adeiladu. Mae'r safle ym 'mharth menter' Parc Cybi a cheir mynediad iddo ar hyd ffordd gyswllt Parc Cybi. Mae'r safle ehangach yn cynnwys glaswelltir a borir a thir pori brwynog gyda phrysgwydd, coetir planhigfa a brigiadau caregog. Mae'r A55 yn rhedeg i'r gogledd ddwyrain o'r safle a cheir eiddo preswyl i'r de. Mae arhosfan tryciau presennol wedi'i leoli ryw 300m i'r gorllewin o Blot 9 ym Mharc Cybi. Darperir cynllun lleoliad safle yn Ffigur 1.1.

Cafodd rhan ogledd ddwyreiniol y safle (gerllaw ffordd gyswllt Parc Cybi) ei harchwilio drwy gloddiad archaeolegol yn ystod gwaith datblygu Parc Cybi. Llawr caled a thir moel yw'r mwyafrif o ôl-troed y safle. Stripiwyd y pridd yn helaeth i hwyluso archwiliadau archaeolegol ac ymchwiliadau tir fel rhan o'i ddefnydd presennol fel cyfleuster stacio crys, a gafodd ganiatâd o dan broses gydsynio ar wahân. Mae cynefin o werth ecolegol yn gyfyngedig i gyrion ymylol y safle.

**Ffigur 1.1: Cynllun Lleoliad Safle Dangosol**



Ffynhonnell: Esri, Maxar, GeoEye, Earthstar Geographics, CNES/Airbus DS, USDA, USGS, AeroFRID, IGN, a'r Gymuned Defnyddwyr GIS Esri, HERE, Garmin, © Cyfranwyr OpenStreetMap, a'r gymuned defnyddwyr GIS

## 1.2 Gwaith Arolwg Blaenorol

Gwnaed gwaith arolwg ecolegol blaenorol yn 2020 a 2021 gan Richards, Moorehead & Laing Limited (RML) a Thomson Environmental Consultants er mwyn deall yr ecoleg sylfaenol, ac amlinellir canlyniadau'r rheiny yn yr adroddiadau canlynol:

- Arolwg Cynefinoedd Cam 1 Estynedig, Thomson Environmental Consultants (Mai 2020)<sup>2</sup>;
- Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol – RML (Tachwedd 2020)<sup>3</sup>;
- Adroddiad Sgrinio Rheoliadau Cynefinoedd - RML (Rhagfyr 2020)<sup>4</sup>; a,
- Gwiriad safle cyn gweithio a Nodyn Safle Ecolegol – RML (Ionawr 2021)<sup>5</sup>.

Roedd gwaith arolwg a gynhaliwyd gan Avian Ecology yn 2016<sup>6</sup>, yn cynnwys arolygon eDNA o fadfallod dŵr cribog mewn dau bwl wedi'u lleoli o fewn 500m i'r gogledd orllewin a'r gogledd ddwyrain o'r safle arfaethedig, ac archwiliad o gyrsgiau dŵr wedi'u lleoli o fewn 350m am bresenoldeb llygod y dŵr.

Cafwyd canlyniad negyddol o'r arolygon eDNA gan ddynodi absenoldeb madfallod dŵr cribog yn 2016. Ni wnaeth yr arolygon o lygod y dŵr a gynhaliwyd yn 2016 i gefnogi cynllun cychwynnol Parc Cybi nodi unrhyw arwyddion yn y maes. Yn yr un modd, ni wnaeth arfarniadau ychwanegol a gwiriad cyn gweithio o Blot 9 a'i gyrsgiau dŵr cysylltiedig, a gynhaliwyd gan RML yn Nhachwedd 2020, Ionawr 2021 a Mawrth 2021, nodi unrhyw dystiolaeth o lygod y dŵr.

## 1.3 Gwaith Arfaethedig

Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio cymeradwyaeth berthnasol ar gyfer adeiladu a gweithredu Safle Rheoli Ffiniau parhaol ar Blot 9 Parc Cybi i wasanaethu Porthladd Caerdybi, gan gynnwys codi nifer o adeiladau (cyfleusterau archwilio ar gyfer cynnyrch planhigion, anifeiliaid bach, anifeiliaid mawr, ceffylau ac adeiladau swyddfa), ardal llawr caled ychwanegol ar gyfer trafndiaeth a pharcio, ffensys newydd, colofnau goleuadau, draeniad a thirlunio cysylltiedig.

Ceisir cymeradwyaeth ar gyfer Amlen Gydsynio "Rochdale". Mae amlen gydsynio "Rochdale" (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel yr 'Amlen Gydsynio') yn amlinellu terfynau asesedig uchaf y datblygiad, gan ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd felly yn nyluniad terfynol y cynllun. Mae'r amlen wedi'i hasesu i sicrhau nad oes effeithiau amgylcheddol arwyddocaol yn deillio o adeiladu a gweithredu'r Safle Rheoli Ffiniau (BCP). Ni chaniateir defnyddio Gorchymyn Datblygu Arbennig o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 os yw'r datblygiad yn achosi effeithiau amgylcheddol arwyddocaol, fel y'u pennir yn unol â'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol. Mae'r Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00)<sup>7</sup> yn gosod terfynau mewn perthynas â'r datblygiad adeiledig a ganiateir ar y safle. Mae hefyd yn gosod terfynau i reoli'r datblygiad drwy'r camau adeiladu a gweithredu. Dylid darllen hwn ar y cyd â'r lluniad Amlen Gydsynio SDO (BCP21-006-05-00)<sup>8</sup> sy'n rhoi mynegiant gofodol o'r amlen gydsynio hyblyg.

<sup>2</sup> Thomson Environmental Consultants (2020) Extended Phase 1 Habitat Survey, Parc Cybi, Mai 2020.

<sup>3</sup> RML (2020) Parc Cybi Holyhead – Plot 9 HGV Parking Preliminary Ecological Appraisal, Tachwedd 2020. Cyfeirnod y ddogfen: 3152/11

<sup>4</sup> RML (2020) Crown Land Permitted Development at Plot 9, Parc Cybi, Holyhead, Anglesey - Habitat Regulations Screening Report, Rhagfyr 2020. Cyfeirnod y Ddogfen: 3152/11HRA Screening

<sup>5</sup> RML (2021) Pre-works site check and Ecological Site Note, Ionawr 2021. Cyfeirnod y ddogfen: 3152/03A

<sup>6</sup> DNA cnewyllol neu fitocondriaidd yw DNA amgylcheddol (eDNA) sy'n cael ei ryddhau o organeb i'r amgylchedd. Mae ffynonellau eDNA yn cynnwys ysgarthion yn cael eu secretu, mwcws, gametau, hen groen wedi'i fwrw a charcasau

<sup>7</sup> Mott MacDonald (2021) SDO Limitations Spreadsheet. Medi 2021. Rhif y Ddogfen: BCP21-006-04-00.

<sup>8</sup> Mott MacDonald (2021) SDO Consenting Envelope. Medi 2021. Rhif y Lluniad: BCP21-006-05-00.

## 1.4 Cwmpas yr Adroddiad

Paratowyd yr Adroddiad hwn ar yr Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol (PEAR) yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) 'Guidelines for Preliminary Ecological Appraisal' 2il argraffiad<sup>9</sup>. Diben yr adroddiad hwn yw darparu asesiad o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a warchodir a/neu a nodir sy'n digwydd neu sydd â'r potensial i ddigwydd ar y safle neu gerllaw'r safle, ac y gallai'r gwaith arfaethedig effeithio arnynt.

Mae nodau'r asesiad hwn fel a ganlyn:

- Cynnal Arolwg Cynefinoedd Cam 1<sup>10</sup> (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), 2010) i ddarparu disgrifiad o'r mathau cynefinoedd bras sy'n bodoli, ac i sefydlu presenoldeb neu bresenoldeb posibl unrhyw rywogaethau a warchodir neu a nodir. Cyflwynir canlyniadau'r arolygon hyn ar ffurf lluniadau (Atodiad A), nodiadau targed (Atodiad B) a ffotograffau (Atodiad D);
- Cynnal astudiaeth ddesg i ganfod unrhyw wybodaeth sy'n bodoli mewn perthynas â rhywogaethau a warchodir neu rywogaethau a nodir, a safleoedd â dynodiad cadwraeth natur o fewn parth dylanwad (Zol) y cynllun;
- Llunio adroddiad yn amlinellu unrhyw rwystrau ecolegol i'r cynllun o ran safleoedd dynodedig, cynefinoedd a/neu rywogaethau a warchodir ac a nodir;
- Darparu argymhellion ar gyfer gwaith arolwg ecolegol pellach, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, i lywio'r gwaelodlin ecolegol ar gyfer ardal yr arolwg;
- Nodi unrhyw fesurau lliniaru neu ddigolledu lefel uchel y gallai fod eu hangen i wrthbwysio effeithiau posibl y datblygiad; a,
- Adnabod cyfleoedd ar gyfer gwella yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol.

---

<sup>9</sup> Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (2017) Guidelines for Preliminary Ecological Appraisal Ail Argraffiad. [Ar-lein] Ar gael yn: [Guidelines-for-Preliminary-Ecological-Appraisal-Jan2018-1.pdf \(cieem.net\)](#)

<sup>10</sup> Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (2010) Handbook for Phase 1 habitat survey. [Ar-lein] Ar gael yn: [Handbook for Phase 1 habitat survey \(jncc.gov.uk\)](#)

## 2 Cyd-destun Deddfwriaethol a Fframwaith Polisi

### 2.1 Trosolwg

Mae'n rhaid i ddatblygwyr sicrhau bod y gweithgareddau adeiladu a gweithredu ar gyfer y cynllun arfaethedig yn cydymffurfio â deddfwriaeth cadwraeth natur genedlaethol a pholisïau bioamrywiaeth lleol. Mae'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisïau cynllunio canlynol wedi'i ddefnyddio i lywio'r asesiad o werth ecolegol cymharol y safle, cyfyngiadau posibl ar ddatblygu ac argymhellion ar gyfer gwelliannau.

### 2.2 Deddfwriaeth

Y prif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd yng Nghymru a Lloegr yw Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)<sup>11</sup> a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)<sup>12</sup>. Mae deddfwriaeth benodol i rywogaethau ar gyfer rhai grwpiau (h.y. moch daear) ar waith hefyd, a thynnir sylw at hyn yn yr adroddiad hwn lle bo'n berthnasol. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu ystod o fesurau gwarchod ar gyfer llawer o rywogaethau ac yn creu safleoedd gwarchodedig (gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (AGA)). Rhaid i weithgareddau sydd â'r potensial i niweidio rhywogaethau a warchodir gael eu hystyried yn briodol a rhaid lliniaru'n briodol ar eu cyfer, felly hefyd y rheiny sydd â'r potensial i effeithio ar safleoedd gwarchodedig. Mewn rhai achosion, mae gan weithgareddau sy'n digwydd rhyw bellter o safle dynodedig y potensial i achosi effeithiau niweidiol a rhaid eu hystyried mewn asesiad o'r effeithiau.

Caiff rhywogaethau estron goresgynnol eu rheoleiddio drwy gyfuniad o'r Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019<sup>13</sup> ac Adran 14/Atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) (cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'Deddf 1981').

O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016<sup>14</sup> mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol a chyrrff cyhoeddus i 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru' wrth gyflawni'u swyddogaethau arferol. Mae Adran 7 y Ddeddf yn cynnwys rhestr o rywogaethau a chynefinoedd 'o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben gwarchod bioamrywiaeth yng Nghymru' i weithredu fel cymorth i arwain cyrrff cyhoeddus wrth gyflawni'u dyletswydd. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r corff cyhoeddus (Llywodraeth Cymru) ystyried effaith y gwaith arfaethedig ar gynefinoedd a rhywogaethau a warchodir.

### 2.3 Polisi Cynllunio Cenedlaethol

O ran polisi cynllunio, ar lefel genedlaethol, mae Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (PPW), 2021<sup>15</sup> (sy'n ymwneud â chadw a gwella'r amgylchedd naturiol) yn mynnu bod Awdurdodau Lleol (a chyrrff cyhoeddus) yn gweithredu mesurau i:

<sup>11</sup> Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, p. 69. Ar gael yn: [Wildlife and Countryside Act 1981 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

<sup>12</sup> Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (SI 2017/1012) Ar gael yn: [The Conservation of Habitats and Species Regulations 2017 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

<sup>13</sup> Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 (SI 2019/527) Ar gael yn: [The Invasive Alien Species \(Enforcement and Permitting\) Order 2019 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

<sup>14</sup> Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, 2016 anaw 3. Ar gael yn: [Environment \(Wales\) Act 2016 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru (2021) Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11. [Ar-lein] Ar gael yn: [Planning Policy Wales - Edition 11 \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- Hyrwyddo cadwraeth tirwedd a bioamrywiaeth, yn enwedig cadwraeth bywyd gwyllt a chynefinoedd cynhenid;
- Sicrhau bod gweithredu yng Nghymru'n cyfrannu at gyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau rhyngwladol ar gyfer yr amgylchedd naturiol;
- Sicrhau bod safleoedd dynodedig statudol yn cael eu gwarchod a'u rheoli'n briodol;
- Diogelu rhywogaethau gwarchodedig; a
- Hyrwyddo swyddogaethau a buddion priddoedd, ac yn arbennig eu swyddogaeth fel storfa garbon.

## 2.4 Polisi Cynllunio Lleol

Ar lefel leol, mae polisiau cynllunio wedi'u hamlinellu yng 'Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLI) 2011-2026' a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017<sup>16</sup>. Mae'r polisiau canlynol yn berthnasol i ecoleg ac yn ymwneud â'r safle hwn.

### 2.4.1 POLISI STRATEGOL PS 19: Gwarchod a lle bo'n berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Bydd y Cynghorau'n rheoli datblygiad er mwyn gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir arbennig ardal y Cynllun. Gwrthodir cynigion a fydd yn cael effaith sylweddol andwyol arnynt oni bai bod yr angen am y datblygiad yn y lleoliad yna, neu'r buddion, yn amlwg yn gorbwyso gwerth y safle neu'r ardal a pholisi gwarchodaeth genedlaethol ar gyfer y safle a'r ardal dan sylw. Wrth benderfynu ar gais cynllunio, bydd angen rhoi ystyriaeth i'r canlynol:-

1. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau, daeareg, hanes, arfordir a thirweddau ardal y Cynllun;
2. Gwarchod neu lle bo'n briodol gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a lle bo'n briodol, eu lleoliadau, yn unol â Pholisi Cenedlaethol;
3. Rhoi sylw priodol i arwyddocâd cymharol dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol neu leol wrth ystyried y pwys i'w roi ar fuddiannau cydnabyddedig, er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfrifoldebau ac ymrwymadau rhyngwladol neu genedlaethol yn cael eu bodloni'n llawn yn unol â Pholisi Cenedlaethol;
4. Gwarchod neu wella bioamrywiaeth o fewn ardal y Cynllun a gwella a/neu adfer rhwydweithiau cynefinoedd naturiol yn unol â'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a Pholisi Amg 5;
5. Gwarchod neu wella bioamrywiaeth drwy rwydweithiau isadeiledd gwyrdd / glas;
6. Diogelu rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol.
7. Gwarchod, cadw neu wella cymeriad a hynodrwydd lleol yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd unigol (yn unol â Pholisi AMG 2) ac Ardaloedd Cymeriad Morlin (yn unol â Pholisi AMG 4); a,
8. Gwarchod, cadw neu wella coed, gwrychoedd neu goetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynderol.

### 2.4.2 POLISI AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

Rhaid i gynigion warchod a, lle bo'n briodol, gwella bioamrywiaeth sydd wedi cael ei hadnabod fel bod yn bwysig i'r ardal leol trwy:

1. Osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol trwy leoli datblygiad yn sensitif;
2. Ystyried cyfleoedd i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt, cerrig sarn, coed, gwrychoedd, coetiroedd a chyrsgiau dŵr;

<sup>16</sup> Cyngor Sir Ynys Môn (2017) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026. [Ar-lein] Ar gael yn: [Anglesey-and-Gwynedd-Joint-Local-Development-Plan-Written-Statement.pdf](#) (llyw.cymru)

3. Gwrthodir cynnig sy'n effeithio ar safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth leol oni bai y gellir cydymffurfio â'r meini prawf canlynol i gyd:

- Nad oes yno safleoedd amgen boddhaol eraill ar gael ar gyfer y datblygiad;
- Bod yr angen am y datblygiad yn gorbwysu pwysigrwydd y safle i gadwraeth natur leol; a,
- Bod mesurau lliniaru neu ddigolledu priodol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynnig.

Lle bo'n angenrheidiol, dylid cynnwys Asesiad Ecolegol sydd yn nodi'r materion bioamrywiaeth lleol perthnasol gyda'r cais cynllunio.

### 2.4.3 POLISI AMG 6: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol

Gwrthodir cynigion a fyddai'n debygol o achosi niwed arwyddocaol uniongyrchol neu anuniongyrchol i Warchodfeydd Natur Lleol (LNR), Safleoedd Bywyd Gwyllt (WS)<sup>17</sup> neu safleoedd daearegol / geomorffolegol pwysig rhanbarthol (RIGS), oni bai bod modd profi fod yna angen gorbwysol cymdeithasol, amgylcheddol a/neu economaidd am y datblygiad, ac nad oes yna safle arall addas a fyddai'n osgoi cael effaith niweidiol ar safleoedd o werth cadwraeth natur lleol neu bwysigrwydd daearegol lleol. Pan ganiateir datblygiad, bydd angen sicrhau bod mesurau lliniaru priodol ar waith. Bydd modd defnyddio amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio er mwyn diogelu pwysigrwydd bioamrywiaeth a daearegol y safle.

---

<sup>17</sup> 'Safleoedd Bywyd Gwyllt' yw'r term a ddefnyddir gan y Cyngorau i gwmpasu'r safleoedd hynny y cyfeirir atynt ym Mholisi Cynllunio Cymru fel Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur (SINC). Mae Mapiau Cyfyngiadau'r Cynllun yn cynnwys 'Safleoedd Bywyd Gwyllt' a safleoedd bywyd gwyllt 'Ymgeisiol'. Mae'r olaf yn cyfeirio at safle a ddynodwyd drwy arolwg ddesg gychwynnol fel safle sy'n deilwng o'i ystyried o bosibl, tra bod 'Safle Bywyd Gwyllt' yn cyfeirio at y rheiny sydd wedi'u cadarnhau wedyn yn dilyn arolwg safle manwl ac asesiad yn erbyn set o feini prawf. Bydd y polisi'n gymwys i 'Safleoedd Bywyd Gwyllt'. Gan nad oes gwerthusiad llawn o'r 'Safleoedd Bywyd Gwyllt Ymgeisiol' cyfan wedi'i gynnal hyd yma, bydd eu gwerth bioamrywiaeth yn cael ei werthuso ar sail safle wrth safle pan fydd cynigion datblygu'n dod gerbron yn y lleoliadau hyn. Ni fyddai Polisi AMG 5 yn gymwys oni bai bod arolwg manwl ac asesiad yn datgelu ei fod yn bodloni'r meini prawf dynodi perthnasol

## 3 Methodoleg

### 3.1 Parth Dylanwad

Mae'r canllawiau presennol ar asesiadau effeithiau ecolegol<sup>18</sup> yn argymhell bod yr holl nodweddion ecolegol a geir o fewn 'Parth Dylanwad' (Zol) ar gyfer cynllun arfaethedig yn cael eu harchwilio.

Mae'r Parth Dylanwad yn cynnwys:

- Ardaloedd sy'n uniongyrchol o fewn y tir a gymerwyd ar gyfer y cynllun arfaethedig a mynediad;
- Ardaloedd yr effeithir arnynt dros dro yn ystod adeiladu;
- Ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio gan darfu hydrolegol; ac,
- Ardaloedd lle ceir risg llygredd a tharfau gan sŵn yn ystod adeiladu a/neu gweithredu.

Mae'r Parth Dylanwad yn amrywio gan ddibynnu ar natur y gweithgareddau adeiladu a'r derbynnyddion ecolegol yr effeithir arnynt. Ar gyfer yr asesiad hwn mae'r parthau a ddefnyddiwyd wedi'u diffinio yn Nhabl 3.1 isod.

**Tabl 3.1: Parth Dylanwad ar gyfer yr Asesiad hwn**

Nodwedd Ecolegol	Parth Dylanwad
Safleoedd dynodedig	O fewn 2 cilometr i'r safle hwn
Safleoedd dynodedig Ewropeaidd ar gyfer ystumod	O fewn 10 cilometr i'r safle
Cofnodion rhywogaethau a warchodir	O fewn 1 cilometr i'r safle hwn
Tystiolaeth o rywogaethau a warchodir	O fewn ffin y safle*

Ffynhonnell: Mott MacDonald 2021; \*neu fel arall pellter addas ar gyfer rhywogaethau a warchodir yn unol â chanllawiau

### 3.2 Astudiaeth Ddesg

Cynhaliwyd astudiaeth ddesg, fel yr argymhellir yn 'Guidelines for Preliminary Ecological Appraisal' y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM), i bennu presenoldeb unrhyw safleoedd cadwraeth natur dynodedig a rhywogaethau a warchodir neu a nodir o fewn Parth Dylanwad y cynllun. Er mwyn sicrhau dilysrwydd y data, dim ond cofnodion a gasglwyd yn y 10 mlynedd diwethaf ac o fewn 1 cilometr ar gyfer safleoedd dynodedig a chofnodion rhywogaethau gwarchoddedig y gofynnwyd amdanynt gan ganolfan cofnodion Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru (Cofnod). Mae'r data wedi'i gwtogi ymhellach yn y testun i'r cofnod agosaf ar gyfer pob rhywogaeth a gofnodwyd, oni bai ei bod yn berthnasol fel arall. Mae data crai ar gael ar gais. Cafwyd gwybodaeth i lywio'r astudiaeth ddesg o'r ffynonellau canlynol:

- Cofnod – Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru<sup>19</sup>;
- Multi Agency Geographical Information for the Countryside (MAGIC)<sup>20</sup>;
- Cyfoeth Naturiol Cymru (<https://cyfoethnaturiol.cymru>)<sup>21</sup>;

<sup>18</sup> Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (2018) Guidelines for Ecological Impact Assessment in the UK and Ireland. [Ar-lein] Ar gael yn: [ECIA-Guidelines-2018-Terrestrial-Freshwater-Coastal-and-Marine-V1.1Update.pdf \(cieem.net\)](https://www.cieem.net/ECIA-Guidelines-2018-Terrestrial-Freshwater-Coastal-and-Marine-V1.1Update.pdf)

<sup>19</sup> Cafwyd gwybodaeth am safleoedd dynodedig ar gyfer prosiect Llywodraeth Cymru/Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ac fe'i rhennir trwy gytundeb.

<sup>20</sup> Gwefan Multi-Agency Geographical Information for the Countryside (MAGIC): <http://magic.defra.gov.uk/>

<sup>21</sup> Gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru: <https://cyfoethnaturiol.cymru>

- Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)<sup>22</sup>; a,
- Coetir Hynafol Lle<sup>23</sup>.

### 3.3 Astudiaeth Maes

Cynhaliwyd arolwg ar droed gan ddau ecolegydd profiadol ar 3 Mawrth 2021. Cafodd yr holl gynefinoedd o fewn y safle eu hadnabod a'u mapio gan gydymffurfio a'r Llawlyfr ar gyfer Arolwg Cynefinoedd Cam 1. Nodwyd rhywogaethau goresgynol a restrwyd ar Atodlen 9 Deddf 1981 neu Atodlen 2 Gorchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynol, ac unrhyw rywogaethau gwarchoddedig neu anghyffredin.

Cynhaliwyd asesiad hefyd o bresenoldeb neu absenoldeb tebygol rhywogaethau a warchodir a/neu a nodir o fewn y safle. Seiliwyd hwn ar ddsbarthiad hysbys rhywogaethau, cynefinoedd a/neu dystiolaeth uniongyrchol fel arwyddion neu arsylwadau yn y maes. Roedd y methodolegau a'r meini prawf asesu yn seiliedig ar ganllawiau cyhoeddadedig cyfredol.

### 3.4 Arolygon o Archwiliadau Ystlumod

#### 3.4.1 Archwiliadau Coed ar y Ddaear

Archwiliwyd coed o fewn ffin y safle am nodweddion clwydfannau posibl (PRF) fel y nodwyd yn Collins (arg. 2016)<sup>24</sup>. Ni wnaed arolwg o goed y tu allan i ffin y safle gan na ddisgwylir yr effeithir arnynt gan y gwaith.

Gall nodweddion clwydfannau posibl gynnwys y canlynol:

- Tyllau cnocell y coed;
- Tyllau pydredd;
- Canghennau peryglus;
- Craciau fertigol neu lorweddol eraill;
- Rhisgl sydd wedi datgysylltu'n rhannol;
- Tyllau clymau;
- Tyllau wedi'u gwneud gan ddyn;
- Cancrau;
- Tyllau neu geudodau eraill;
- Prif geinciau dwbl;
- Bylchau rhwng coesyntau neu ganghennau sy'n gorgyffwrdd;
- Eiddew/iorwg sydd wedi datgysylltu'n rhannol gyda diamedrau coesyntau dros 50mm; a/neu,
- Flychau ystlumod, adar neu bathewod.

Cafodd unrhyw dystiolaeth o ystlumod yn defnyddio nodweddion clwydfannau posibl eu nodi hefyd, a gallent gynnwys y canlynol:

- Tail ystlumod o fewn, o amgylch neu o dan y nodwedd clwydfan bosibl;
- Arogl yn dod o nodwedd clwydfan bosibl;

<sup>22</sup> Gwefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC): <https://jncc.gov.uk/>

<sup>23</sup> Cyfoeth Naturiol Cymru (2021) Rhestr Coetiroedd Hynafol Lle 2021, [Ar-lein] Ar gael yn: [Lle - Rhestr o Goetiroedd Hynafol 2021 \(llyw.cymru\)](#)

<sup>24</sup> Bat Conservation Trust (2016) Bat Survey for Professional Ecologists Good Practice Guidelines. [Ar-lein] Ar gael yn: [Bat Survey Guidelines 2015](#)

- Sŵn gwichian clywadwy yn y cyfnos neu mewn tywydd cynnes; a/neu,
- Staenio o dan y nodwedd clwydfan bosibl.

Cafodd y safle cyfan ei asesu hefyd am ei bwysigrwydd fel cynefin porthi a chymudo a'i ddsbarthu gan ddefnyddio Tabl 3.2 (yn seiliedig ar Collins, arg. 2016).

**Tabl 3.2: Dosbarthiad Addasrwydd Ystlumod**

**Addasrwydd Cynefinoedd Cymudo a Phorthi**

Isel	Nodweddion cynefin dibwys ar y safle i'w defnyddio gan ystlumod yn cymudo neu borthi.
Cymedrol	Gallai'r cynefin gael ei ddefnyddio gan niferoedd bach o ystlumod yn cymudo, fel gwrychoedd gyda bylchau neu ffrwd heb lystyfiant, ond yn ynysig, (h.y. heb fod wedi'i gysylltu'n dda iawn â'r dirwedd amgylchynol gan gynefin arall). Cynefin addas, ond ynysig, y gellid ei ddefnyddio gan niferoedd bach o ystlumod yn porthi fel coeden unigol (nid mewn sefyllfa parcdir) neu lain o brysgwydd.
Uchel	Cynefin parhaus wedi'i gysylltu â'r dirwedd ehangach y gellid ei ddefnyddio gan ystlumod ar gyfer cymudo fel llinellau o goed a phrysgwydd neu erddi cefn cysylltiedig. Cynefin sydd â chysylltiad â'r dirwedd ehangach y gellir ei ddefnyddio gan ystlumod ar gyfer porthi, fel coed, prysgwydd, glaswelltir neu ddŵr.
Uchel iawn	Cynefin parhaus o ansawdd uchel sydd wedi'i gysylltu'n dda â'r dirwedd ehangach sy'n debygol o gael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan ystlumod yn cymudo fel dyffrynnoedd afon, nentydd, gwrychoedd, llinellau o goed ac ymyl coetir. Cynefin o ansawdd uchel sydd â chysylltiad da â'r dirwedd ehangach y mae'n debygol y caiff ei ddefnyddio'n rheolaidd gan ystlumod ar gyfer porthi, fel coetir llydanddail, cyrsiau dŵr â choed ar hyd eu glannau a pharcdir a borir. Mae'r safle gerllaw clwydfannau hysbys ac wedi'i gysylltu â nhw.

Ffynhonnell: (yn seiliedig ar Collins, arg. 2016)

### 3.5 Cyfyngiadau

Nid yw'r cofnodion biolegol a gafwyd gan drydydd partion ac a gyflwynwyd yn yr astudiaeth ddesg yn rhestr lawn a chyflawn o rywogaethau ar gyfer yr ardal. Mae'r cofnodion wedi'u darparu gan unigolion ar sail ad-hoc yn bennaf, sy'n golygu'n aml y ceir diffygion mewn manau yn y data. Os nad yw cofnodion rhywogaethau yn bresennol, gallai fod oherwydd na wnaed arolwg digonol o'r ardal, ac fel y cyfryw, nid oes unrhyw gofnodion wedi'u cael. Ni ddylid diystyru diffyg rhywogaethau felly.

Mae arolygon ecolegol yn gyfyngedig i ffactorau sy'n effeithio ar bresenoldeb planhigion ac anifeiliaid, fel amser y flwyddyn, patrymau mudo ac ymddygiad. Gydag un ymweliad arolygu mae'n bosibl y gallai rhywogaeth benodol fod wedi'i hesgeuluso neu dan-gofnodi yn ystod yr asesiad gan fod y cyfnodau arolygu gorau yn amrywio o rywogaeth i rywogaeth.

Cynhaliwyd yr arolwg Cynefinoedd Cam 1 y tu allan i'r cyfnod gorau ar gyfer y math hwn o arolwg, cyn y prif dymor blodeuo. Fodd bynnag, cafwyd cymorth gan fotanegydd Lefel 6 FISC (tystysgrif sgiliau adnabod yn y maes) i helpu adnabod glaswelltau llystyfol a dail gwaelodol planhigion yn dod i'r golwg. Fe wnaeth hyn helpu cwmpasu unrhyw fylchau o ran adnabod, ac ystyrir bod lefel yr arolwg yn ddigonol.

Roedd llawer o'r safle yn ddwrlawn iawn ac nid oedd modd croesi'n ddiogel dros ardaloedd o frwyn a oedd yn tyfu yn y cornel de orllewinol. O ystyried yr amser o'r flwyddyn, nid oedd modd adnabod rhywogaethau'r brwyn hyn yn bendant o bellter.

## 4 Canlyniadau

### 4.1 Astudiaeth Ddesg

Cynhaliwyd astudiaeth ddesg i adnabod rhywogaethau a chynefinoedd allweddol gerllaw ac yn gyfagos i'r safle. Cyflwynir y canlyniadau yn yr adrannau canlynol. Rhai brasamcanol yw'r pellteroedd a maent wedi'u mesur o ganol y safle.

#### 4.1.1 Safleoedd Dynodedig Statudol

Mae'r safle o fewn Ardal o Harddwch Naturiol (AHNE) Arfordir Ynys Môn / Anglesey. Ceir pump o safleoedd dynodedig statudol o fewn 2 cilometr yn cynnwys un Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), dwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a dwy Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Ni nodwyd unrhyw safleoedd ychwanegol ar gyfer ystlumod o fewn 10 cilometr i'r safle. Darperir map o'r safleoedd dynodedig statudol yn Atodiad C o'r adroddiad hwn (BCP21-004-00-00). Ceir manylion y safleoedd dynodedig yn Nhabl 4.1 isod.

**Tabl 4.1: Safleoedd Dynodedig Statudol o fewn 2 cilometr**

Enw	Statws	Manylion	Pellter Bras a Chyfeiriad
Beddmanarch-Cymyran	SoDdGA	Mae'r safle, sy'n cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd arfordirol rhwng Ynys Gybi a 'thir mawr' Ynys Môn wedi'i ddewis yn bennaf am ei ddiddordeb adaregol a botanegol. Ceir ardaloedd mawr o fanciau tywod, fflatiau llaid a morfa heli, yn ogystal â dwy lain o rostir twyni. Mae diddordeb biolegol morol gan y safle hefyd. Mae amrywiaeth eang o adar y dŵr, yn pasio heibio ac yn y gaeaf, yn cael eu denu i'r ardal sy'n arbennig o bwysig i'r cwtiad torchog ( <i>Charadrius hiaticula</i> ) yn gaeafu, y pibydd coeswyrdd ( <i>Tringa nebularia</i> ), hwyaden frongoch ( <i>Mergus serrator</i> ) a'r hwyaden lygad aur ( <i>Bucephala clangula</i> ). Ar y fflatiau llaid ceir gwelyau o wellt y gamlas ( <i>Zostera sp.</i> ) ac mae pob un o'r rhywogaethau Prydeinig wedi'u cofnodi.	1 cilometr i'r dwyrain
Anglesey Terns / Morwenoliad Ynys Môn	AGA	Wedi'i ddynodi am: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y fôr-wennol wridog (<i>Sterna dougallii</i>);</li> <li>• Y fôr-wennol gyffredin (<i>Sterna hirundo</i>);</li> <li>• Môr-wennol y Gogledd (<i>Sterna paradisaea</i>); ac,</li> <li>• Y fôr-wennol bigddu (<i>Thalasseus sandvicencis</i>).</li> </ul>	1.15 cilometr i'r gogledd
North Anglesey Marine / Gogledd Môn Forol	ACA	Wedi'i ddynodi am: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llamhidydd (<i>Phocoena phocoena</i>).</li> </ul>	1.4 cilometr i'r gogledd
Glannau Ynys Gybi / Holy Island Coast	ACA	Wedi'i ddynodi am: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Weundiroedd sych Ewropeaidd;</li> <li>• Gweundiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gyda (<i>Erica tetralix</i>);</li> <li>• Clogwyni môr â llystyfiant arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig.</li> </ul>	1.93 cilometr i'r gorllewin
Glannau Ynys Gybi / Holy Island Coast	ACA	Wedi'i ddynodi am: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y frân goesgoch (<i>Pyrhocorax pyrrhocorax</i>).</li> </ul>	1.93 cilometr i'r gorllewin

Ffynhonnell: Mott Macdonald Limited 2021

#### 4.1.2 Safleoedd Dynodedig Anstatudol

Roedd dau safle bywyd gwyllt dynodedig anstatudol wedi'u lleoli o fewn 2 cilometr i'r safle, a nodir eu manylion yn Nhabl 4.2 isod:

**Tabl 4.1: Safleoedd Dynodedig Anstatudol o fewn 2 cilometr**

Enw	Statws	Manylion	Pellter Bras a Chyfeiriad
Arfordir Bwth Corgwl – Bae Trearddur	WS	Llain o arfordir creigiog gydag amrywiaeth o laswelltir arfordirol a rhostir arfordirol gydag ardaloedd o graig foel.	1.7 cilometr i'r de orllewin
Rhostir Mynydd Celyn	WS	Tiroedd pori caeedig gyda nifer o frigiadau caregog isel. Mae glaswelltir yn ffurfio mosaig gydag ardaloedd o weundir sych a gwlyb ymysg craig foel ar y brigiadau.	2 cilometr o'r safle

Ffynhonnell: Mott MacDonald Limited 2021

#### 4.1.3 Nodi Cyrsiau Dŵr

Er mwyn cynorthwyo ag asesu addasrwydd unrhyw gynefinoedd yng nghyffiniau'r cynllun i gynnal y fadfall ddŵr gribog (*Triturus cristatus*), cynhaliwyd chwiliad pen desg am gyrrff dŵr o fewn 500m i'r safle. Nododd yr astudiaeth ddesg gyfanswm o saith pwl a phedair ffos o fewn 500m i'r safle, fel y dangosir mewn cynllun yn Atodiad E.

#### 4.1.4 Cofnodion Rhywogaethau a Warchodir

##### 4.1.4.1 Adar

Datganwyd 16 o rywogaethau adar o fewn 1 cilometr i'r safle, gan gynnwys dwy rywogaeth sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 1 Deddf 1981. Darperir Rhywogaethau Adar Atodlen 1 yn Nhabl 4.3 isod.

**Tabl 4.2: Rhywogaethau Adar Atodlen 1 o fewn 1 cilometr i'r Safle**

Rhywogaethau Adar Atodlen 1	Pellter Bras a Chyfeiriad o'r Safle
Asgell goch ( <i>Turdus iliacus</i> )	884m i'r gogledd
Tylluan wen ( <i>Tyto alba</i> )	393m i'r gogledd ddwyrain

Ffynhonnell: Cofnod, 2020

##### 4.1.4.2 Pysgod

Ni ddatganwyd unrhyw gofnodion o bysgod o fewn 1 cilometr i'r safle.

##### 4.1.4.3 Mamaliaid

###### Ystlumod

Ni nodwyd unrhyw gofnodion o ystlumod o fewn 1 cilometr i'r safle. Y tu allan i'r byffer 1 cilometr, cofnodwyd y rhywogaethau / grwpiau rhywogaethau canlynol:

- Ystlum lleiaf (*Pipistrellus pipistrellus*);
- Rhywogaethau ystlumod Myotis (*Myotis sp.*); a'r,
- Ystlum hirglust (*Plecotus auritus*).

Y cofnod agosaf oedd ystlum lleiaf oddeutu 1.1 cilometr i'r de orllewin o'r safle. Ni nodwyd unrhyw glwydfannau o fewn 2 cilometr, dim ond ymddygiad porthi a chymudo oedd wedi'i gofnodi.

###### Dyfrgwn

Datganwyd dau gofnod o ddyfrgwn (*Lutra lutra*) o fewn 1 cilometr, gyda'r cofnod agosaf wedi'i leoli oddeutu 0.44 cilometr i'r gogledd orllewin o'r safle.

#### *Moch Daear*

Datganwyd cyfanswm o bum cofnod o foch daear (*Meles meles*) o fewn 1 cilometr i'r safle, ac roedd yr agosaf wedi'i leoli oddeutu 0.53 cilometr i'r gorllewin o'r safle.

#### *Draenogod*

Nodwyd un cofnod o ddraenog (*Erinaceus europaeus*) o fewn 1 cilometr, wedi'i leoli oddeutu 0.80 cilometr i'r de o'r safle.

#### *Ffwlbar*

Nodwyd un cofnod marw o'r ffwlbar (*Mustela putorius*) oddeutu 0.66 cilometr i'r gogledd ddwyrain o'r safle.

#### *Pathew y Cyll*

Ni ddatganwyd unrhyw gofnodion o bathew y cyll (*Muscardinus avellanarius*) o fewn 1 cilometr i'r safle. Nododd yr Ymddiriedolaeth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (NBN) un cofnod unigol ar dir mawr Ynys Môn, i'r gogledd o Borthaethwy sydd wedi'i wahanu gryn dipyn yn ddaearyddol o'r safle. Ar y sail hon ac o ystyried y cynefinoedd presennol ar y safle a ddynodwyd yn ystod gwaith arolwg a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2000, nid ystyrir bod angen rhoi unrhyw ystyriaeth bellach i'r rhywogaeth hon mewn perthynas â'r cynnig presennol.

#### *Llygoden y Dŵr*

Ni ddatganwyd unrhyw gofnodion o lygod y dŵr (*Arvicola amphibius*) o fewn 1 cilometr i'r safle. Ni wnaeth arolygon blaenorol a gwiriadau cyn gweithio ar gyfer llygod y dŵr a gyflawnwyd gan Avian Ecology yn 2016 ac RML yn Nhachwedd 2020, Ionawr 2021 a Mawrth 2021, nodi unrhyw dystiolaeth o lygod y dŵr. Cafodd cofnodion hanesyddol o lygod y dŵr eu nodi yn 2006, yn gysylltiedig â ffos wedi'i lleoli i'r de ddwyrain o'r safle mewn cae cyffiniol, lle mae'n llifo o dan Lôn Trefignath. Awgrymodd arolygon a gynhaliwyd gan RML yn Nhachwedd 2020 ac Ionawr 2021 fod cyflwr y ffos wedi dirywio ac ni fyddai'n addas mwyach i gynnal poblogaethau sy'n magu o'r rhywogaeth hon. Ar y sail hon ac o ystyried bod y cynefin hwn wedi'i leoli y tu allan i ôl-troed y datblygiad, nid ystyrir bod angen rhoi unrhyw ystyriaeth bellach i'r rhywogaeth hon mewn perthynas â'r cynnig presennol.

#### *Rhywogaethau Goresgynol*

Ni ddatganwyd unrhyw gofnodion o rywogaethau mamaliaid goresgynol o fewn 1 cilometr i'r safle. Y tu allan i'r byffer 1 cilometr, nodwyd un cofnod unigol o finc Americanaidd (*Neovison vison*) oddeutu 1.78 cilometr i'r dwyrain o'r safle.

#### 4.1.4.4 Herpetoffawna

##### *Ymlusgiaid*

Nodwyd un cofnod unigol o neidr ddefaid (*Anguis fragilis*) oddeutu 0.75 cilometr i'r gogledd o'r safle. Y tu allan i'r byffer 1 cilometr, nodwyd un cofnod unigol o fadfall (*Zootoca vivipara*) oddeutu 1.6 cilometr i'r de o'r safle ac fe wnaeth trafodaethau gydag ecolegydd yr awdurdod lleol gadarnhau presenoldeb madfall o fewn ardal datblygu amgylchynol Parc Cybi.

##### *Amffibiaid*

Ni ddatganwyd unrhyw gofnodion o amffibiaid o fewn 1 cilometr i'r safle. Y tu allan i'r byffer 1 cilometr, nodwyd dau gofnod o fadfallod dŵr cribog oddeutu 1.9 cilometr i'r gogledd orllewin o'r

safle, a dau gofnod o'r llyffant dafadennog (*Bufo bufo*) wedi'u lleoli oddeutu 1.7 cilometr i'r gogledd ddwyrain o'r safle. Datganodd arolygon eDNA o fadfallod dŵr cribog a gynhaliwyd gan Avian Ecology yn 2016 ganlyniad negyddol. Cynhaliwyd y prawf hwn cyn adeiladu a sefydlu'r pwll gwanhau presennol a dylid nodi bod madfallod dŵr cribog yn rhywogaeth symudol a chynhaliwyd yr asesiad dros 4 blynedd yn ôl.

Cynhaliwyd arolygon o fadfallod dŵr cribog i ategu'r asesiad hwn, ac amlinellir y rhain yn Adran 4.2.4.

#### 4.1.4.5 Infertebratau

Datganwyd cyfanswm o 21 o rywogaethau infertebratau o fewn 1 cilometr i'r safle, ac maent i gyd ar y rhestr Rhywogaethau o Bwysigrwydd Pennaf Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Rhestrir y rhywogaethau hyn yn Nhabl 4.4 isod.

**Tabl 4.3: Rhywogaethau Infertebratau Adran 7**

#### Rhywogaethau Infertebratau Adran 7 o fewn 1 cilometr o'r safle

Enw Cyffredin	Enw Lladin	Enw Cyffredin	Enw Lladin
Ermin gwyn	<i>Spilosoma lubricipeda</i>	Ermin llwydfelyn	<i>Spilosoma lutea</i>
Smotyng sgwâr bach	<i>Diarsia rubi</i>	Ffenics bach	<i>Ecliptopera silaceata</i>
Brithyn llwydolau	<i>Apamea remissa</i>	Gwensgod gwar rhesog	<i>Leucania comma</i>
Cwswll y Pannog	<i>Scopula marginepunctata</i>	Crynwr llychlyd	<i>Orthosia gracilis</i>
Brychan deusmotiog tywyll	<i>Xanthorhoe ferrugata</i>	Gwladwr brith	<i>Caradrina Morpheus</i>
Gwyfyn y Banadl	<i>Ceramica pis</i>	Brychan cyrens	<i>Eulithis mellinata</i>
Chwimwyfyn Rhithiol	<i>Hepialus humuli</i>	Llwyd llyfn	<i>Hoplodrina blanda</i>
Gwaswyfyn	<i>Malacosoma neustria</i>	Gwyfyn dotiog	<i>Melanchra persicariae</i>
Rhesen lydan dywyll	<i>Scotopteryx chenopodiata</i>	Gwladwr yr hydref	<i>Eugnorisma glareosa</i>
Gwladwr gwridog	<i>Hydraecia micacea</i>	Bidog y tafol	<i>Acronicta rumicis</i>
Pali tywyll	<i>Mniotype adusta</i>		

Ffynhonnell: Cofnod, 2021

#### Cimwch yr Afon

Ni ddatganwyd unrhyw gofnodion o gimwch yr afon (*Austropotamobius pallipes*) o fewn 1 cilometr i'r safle. O ystyried y diffyg cofnodion a chynefinoedd sy'n bresennol ar y safle, nid ystyrir bod angen rhoi unrhyw ystyriaeth bellach i'r rhywogaeth hon mewn perthynas â'r cynnig presennol.

#### 4.1.4.6 Fflora

##### Rhywogaethau Planhigion Goresgynol

Nodwyd cyfanswm o wyth cofnod o Jac y Neidiwr (*Impatiens glandulifera*) o fewn 1 cilometr, bob un ohonynt i'r gogledd orllewin o'r safle, a nodwyd yr un agosaf oddeutu 0.71 cilometr i ffwrdd. Mae Jac y Neidiwr wedi'i restru ar Atodlen 9 Deddf 1981 ac ar Atodlen 2 Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynol Estron 2019.

## 4.2 Ymweliad â'r Safle

### 4.2.1 Cynefinoedd

Mae'r cynefinoedd a gofnodwyd o fewn a gerllaw'r safle yn cael eu disgrifio isod. Darperir y Map Cynefinoedd Cam 1 estynedig yn Atodiad A, gyda nodiadau targed cysylltiedig yn Atodiad B. Cyfeirir at nodiadau targed fel TN1, TN2, ac ati, trwy gydol yr adran ddilynol.

**Tabl 4.4: Disgrifiad o Gynefinoedd**

Cod y Cynefin	Math o Gynefin	Disgrifiad	Lleoliad
A1.1.2	Coetir Planhigfa Lydanddail	Mae coetir planhigfa anaeddfed, sy'n ffurfio'r gwelliannau i'r dirwedd feddal ar gyfer gwaith cychwynnol y cyfleuster stacio HGV a datblygiad Parc Cybi, yn bresennol yn gyfagos i'r pwll gwanhau presennol, yn ffinio ffordd gyswllt y de orllewin a Pharc Cybi ac ar frig y clawdd pridd â llystyfiant sy'n rhedeg o'r de ddwyrain ar hyd ffin llinell goch y safle i'r gogledd orllewin (Atodiad B, TN2, TN13 ac Atodiad D, Ffigur D.4). Mae'r coed yn yr ardaloedd hyn mewn cyflwr gwael ac yn ymddangos grablyd, ac mae llawer ohonyn nhw wedi methu. Mae'r rhywogaethau sy'n bresennol yn cynnwys derw mes coesynnog ( <i>Quercus robur</i> ), ynn ( <i>Fraxinus excelsior</i> ), rhywogaethau helyg ( <i>Salix sp.</i> ), gwern ( <i>Alnus glutinosa</i> ), a'r ddraenen ddu ( <i>Prunus spinosa</i> ).	Yr ehangder gogledd ddwyreiniol ac yn ffinio'r de a'r gorllewin.
A2.2	Prysgwydd - gwasgaredig	Mae prysgwydd gwasgaredig yn cynnwys eithin ( <i>Ulex europaeus</i> ) yn gysylltiedig â'r brigiadau caregog a'r glaswelltir wedi'i led-wella ar ymyl y safle.	Ymyl y safle
B1	Glaswelltir asid, heb ei wella	Mae glaswelltir asid, heb ei wella gyda rhywogaethau anghyffredin yn genedlaethol a'r rheiny o bwysigrwydd lleol, yn cynnwys briweg y cerrig ( <i>Sedum anglicum</i> ) a phys y ceirw ( <i>Ornithopus perpusillus</i> ), yn gysylltiedig â'r brigiad caregog ar hyd y ffordd gyswllt (Atodiad B, TN11). Roedd rhywogaethau eraill a oedd yn bresennol yn cynnwys peiswellt y defaid ( <i>Festuca ovina</i> ) a throed y golomen ( <i>Geranium mole</i> ).	Gogledd ddwyrain y safle
B6	Glaswelltir gwael wedi'i led-wella	Mae glaswelltir wedi'i led-wella sy'n cael ei bori'n dynn yn cynnwys maeswellt cyffredin ( <i>Agrostis capillaris</i> ) a gweunwellt llyfn ( <i>Poa pratensis</i> ), troed y ceiliog ( <i>Dactylis glomerata</i> ), meillion gwyn ( <i>Trifolium repens</i> ) yn amgylchynu ymyl y safle sy'n gysylltiedig â'r blanhigfa lydanddail (Atodiad B, TN2 ac Atodiad D, Ffigur D.4).	Ymyl y safle
E2	Tir gwlyb	Mae ffrwd fach/tir gwlyb yn bresennol wrth droed y brigiad caregog gogledd ddwyreiniol (Atodiad B, TN7).	Gogledd ddwyrain y safle
G1	Merddwr	Mae'r safle yn gorslyd/ddwrlawn iawn. Mae ffos ddraenio wlyb wedi'i lleoli ym mhen de orllewin y safle, yn rhedeg drwy'r tir moel ac yn dod i ben mewn ardal o rywogaethau brwyn ( <i>Juncus sp.</i> ) (Atodiad B, TN3). Mae ardaloedd ychwanegol o ferddwr yn rhedeg ar hyd y clawdd pridd ar ehangder deheuol y safle (Atodiad B, TN5 a TN10). Hefyd, mae ffos wlyb fas, oddi ar y safle, yn ffinio â'r ffin dde ddwyreiniol (Atodiad D, D.5) (Atodiad B, TN10). Mae pwll gwanhau presennol a phwll gwanhau sydd wedi'i greu yn newydd fel rhan o'r gwaith brys diweddar wedi'u lleoli yng nghornel de ddwyreiniol y safle (Atodiad B, TN9). Roedd y planhigion yn y pwll gwanhau presennol yn cynnwys brigwlydd ( <i>Callitriche stagnalis</i> ), cynffon y gath ( <i>Typha latifolia</i> ) a brwyn caled ( <i>Juncus inflexus</i> ) ar hyd ei gyrion.	Ehangder deheuol y safle
I1.4	Brigiad caregog mewndirol	Mae brigiadau caregog naturiol wedi'u lleoli ar hyd yr ehangder gogleddol (y tu ôl i'r cyfleusterau lles presennol) a rhwng y ddwy ardal planhigfa yn gyfagos i'r gylchfan (yn ffinio ffordd gyswllt Parc Cybi) (Atodiad B, TN1, TN4 a TN11). Mae'r brigiadau wedi'u cytrefu gan nifer o rywogaethau bryoffytau a chennau y nodir eu manylion yn Atodiad B.	Gogledd a gogledd ddwyrain y safle
J2.4	Ffens	Mae gan y clawdd pridd â llystyfiant sy'n ymestyn o'r de ddwyrain ar hyd ffin llinell goch y safle i'r gogledd orllewin, ffensys ar ei hyd ar y ddwy ochr.	Ffinio'r safle o'r de ddwyrain i'r gogledd orllewin
J2.8	Clawdd pridd	Mae clawdd pridd â llystyfiant yn ymestyn o'r de ddwyrain ar hyd ffin llinell goch y safle i'r gogledd orllewin (Atodiad B, TN13). Mae clawdd pridd ychwanegol (sy'n cynnwys y pridd a gloddiwyd) yn gwahanu'r ardal llawr caled oddi wrth y tir moel mewn cyfeiriad gogledd orllewin i'r de ddwyrain (Atodiad B, TN12).	Ymyl y safle a'r cornel gogledd ddwyreiniol
J3.6	Adeiladau	Mae cyfleusterau lles staff ategol yn bresennol ar y llawr caled ond ni chânt eu dangos yn unigol yn Atodiad A (Atodiad D, Ffigur D.1).	Canol y safle
J4	Tir moel	Mae tir moel sylweddol i'w gael ar y safle o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith cloddio ac archwilio tir archaeolegol (Atodiad B, TN8).	Gogledd ddwyrain, de orllewin, de a de ddwyrain y safle
J5	Llawr caled	Ochr yn ochr â thir moel, mae'r llawr caled yn cynnwys y mwyafrif o'r cynefin ar y safle, yn ffurfio'r cyfleuster stacio HGV brys presennol (Atodiad D, Ffigur D.1).	Canol y safle

Ffynhonnell: Mott MacDonald 2021

#### 4.2.2 Rhywogaethau a Warchodir ac a Nodir

Nodwyd nifer fach o arsylwadau achlysurol o rywogaethau adar yn ystod yr arolwg, gan gynnwys y frân dyddyn (*Corvus corone*), brân lwyd (*Corvus cornix*), peneuryn (*Carduelis carduelis*), gwylan y penwaig (*Larus argentatus*), drudwy (*Sturnus vulgaris*), pioden (*Pica pica*), aderyn du (*Turdus merula*), y fronfraith (*Turdus philomelos*) a'r dryw (*Troglodytes troglodytes*). Ni chofnodwyd unrhyw dystiolaeth yn y maes o lygod y dŵr, moch daear na dyfrgwn, ac nid ystyriwyd bod unrhyw nodweddion ar y safle yn addas i gynnal ystlumod yn clwydo, am fod y coed yn anaeddfed a bod diffyg nodweddion clwydo yno.

Mae amrywiaeth o gynefinoedd yn bresennol ar y safle yr ystyrir eu bod yn addas i gynnal rhywogaethau a warchodir neu rywogaethau a nodir, er bod y rheiny'n gyfyngedig yn sgil colli cynefin sylweddol o ganlyniad i waith adeiladu parhaus. Trafodir addasrwydd cynefinoedd i gynnal rhywogaethau a warchodir neu rywogaethau a nodir yn Adran 5.

#### 4.2.3 Rhywogaethau Goresgynol

Ni nodwyd unrhyw rywogaethau goresgynol yn ystod yr arolwg ar droed, fodd bynnag, mae cyfyngiadau arolwg yn berthnasol fel y trafodir yn Adran 3.5.

#### 4.2.4 Arolygon o Fadfallod Dŵr Cribog

Cynhaliwyd arolygon o fadfallod dŵr cribog gan RML yn hwyr ym mis Ebrill ac ar ddiwedd mis Mai. Roedd yr arolygon yn cynnwys samplu eDNA o gyrff dŵr o fewn 300m ac arolygon presenoldeb/absenoldeb o gyrff dŵr o fewn 250m.

Datganodd yr arolygon eDNA a phresenoldeb/absenoldeb ei bod yn debygol bod madfallod dŵr cribog yn absennol o fewn y safle ac ystyrir bod statws cadwraeth presennol madfallod dŵr cribog yn yr ardal a arolygwyd yn anffafriol. Nodir canlyniadau'r arolygon hyn yn Atodiad E yr adroddiad hwn.

## 5 Gwerthusiad

### 5.1 Safleoedd Dynodedig

Ystyrir bod safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol o werth ar lefel genedlaethol a sirol oherwydd eu gwarchodaeth gan y gyfraith a pholisi. Amlinellir asesiad o lwybrau effeithiau tebygol yn Adran 6.

### 5.2 Cynefinoedd

#### 5.2.1 Coetir Planhigfa Lydanddail

Mae'r coetir planhigfa lydanddail ar y safle yn anaeddfed ac mae'r coed yn yr ardaloedd hyn mewn cyflwr gwael, yn arddangos twf crablyd ac arwyddion o fethu, yn nodedig. Yn dilyn mesurau unioni ac aeddfedu, byddai'r blanhigfa lydanddail yn ffurfio nodweddion llinelllog o werth ecolegol cynhenid mewn cyd-destun lleol.

#### 5.2.2 Brigiad Caregog Mewndirol Naturiol

Mae'r brigiadau caregog mewndirol i'r gogledd a'r gogledd ddwyrain o'r safle yn cael eu hystyried yn gynefin o Bwysigrwydd Pennaf fel y'u rhestrwyd o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Cynefinoedd Brigiadau Caregog a Sgri Mewndirol), ac ystyrir eu bod o werth ecolegol uchel ar lefel genedlaethol.

#### 5.2.3 Glaswellt Asid, Heb ei Wella

Ystyrir bod glaswellt asid, heb ei wella, yn gynefin o Bwysigrwydd Pennaf fel y'i rhestrwyd o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Glaswelltir Asid) ac mae'n gysylltiedig â'r brigiad caregog i'r gogledd ddwyrain ar hyd y ffordd gyswllt. Ystyrir bod gwerth ecolegol uchel ar lefel genedlaethol i'r cynefin blaenoriaeth hwn.

#### 5.2.4 Merddwr

Ystyrir bod pyllau yn gynefin o Bwysigrwydd Pennaf fel y'u rhestrwyd o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Dŵr Merddwr Agored a Chamlesi) ac ystyrir bod gwerth ecolegol uchel iddynt ar lefel genedlaethol.

#### 5.2.5 Tir Gwlyb

Ystyrir bod cynefin tir gwlyb sy'n bresennol i'r gogledd orllewin o'r safle yn bwysig o ran cadwraeth natur gydag addasrwydd i gynnal bryoffytâu cyffredin neu fflora mwy amrywiol posibl gan gynnwys nifer o rywogaethau o Bwysigrwydd Pennaf fel y'u rhestrwyd o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

#### 5.2.6 Cynefinoedd Eraill

Ystyrir bod yr holl gynefinoedd eraill o werth ar lefel safle yn unig ac felly nid ydynt yn creu rhwystr i'r gwaith arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd glaswelltir wedi'i led-wella, tir moel a phrysgwydd.

### 5.3 Rhywogaethau a Warchodir neu Rywogaethau a Nodir

Ar sail y cynefinoedd sy'n bresennol, mae'r safle yn darparu cyfleoedd ar gyfer nifer o rywogaethau a warchodir a/neu rywogaethau a nodir. Rhoddir manylion y rhain yn ôl rhywogaeth/grŵp rhywogaeth yn Nhabl 5.1 isod.

**Tabl 5.1: Asesiad o Rywogaethau a Warchodir a/neu Rywogaethau a Nodir**

Nodwedd	Lleoliad / Cynefinoedd	Asesiad
Adar	Cynefinoedd tir moel, prysgwydd a glaswelltir	Ystyrir bod y cynefinoedd hyn sy'n yn bresennol ar y safle yn addas i gynnal adar yn porthi a nythu. Fodd bynnag, gallai'r tarfu presennol gan yr adeiladu atal nythu mewn mannau agored. Datganwyd cofnodion o ddyw rywogaeth Atodlen 1 o fewn 1 cilometr i'r safle.
Ystlumod	Merddwr, coetir planhigfa lydanddail, prysgwydd a glaswelltir	Ystyriwyd bod yr holl goed ar y safle yn rhy anaeddfed i gynnig cyfleoedd i ystlumod glwydo (ac o addasrwydd dibwys), fodd bynnag, ystyrir bod y merddwr, prysgwydd a'r glaswelltir yn gynefin addas i rywogaethau ystlumod borthi a chymudo yn yr ardal leol (o addasrwydd cymedrol). Pan fyddant yn eu llawn dwf, byddai'r coetir planhigfa lydanddail yn darparu nodweddion llywio drwy'r dirwedd leol a allai gael eu defnyddio gan ystlumod yn cymudo, yn ogystal â darparu cyfleoedd i glwydo a phorthi.
Moch daear	Merddwr, cynefinoedd glaswelltir, prysgwydd gwasgaredig a choetir planhigfa lydanddail	Ni chofnodwyd unrhyw dystiolaeth o foch daear yn ystod yr ymweliad â'r safle, fodd bynnag, roedd pum cofnod o'r rhywogaeth o fewn 1 cilometr i'r safle. Ystyriwyd bod cynefinoedd ar y safle yn rhy wlyb i greu brochfeydd, a gyda cholli cynefin, y tarfu presennol gan yr adeiladu a'i ddefnydd fel cyfleuster stacio HGV 24 awr, mae ei addasrwydd ar gyfer moch daear yn cymudo yn lleihau'n sylweddol. Mae cyfleoedd i borthi yn gyfyngedig i gynefin glaswelltir a phrysgwydd ar yr ymylon, gyda phyllau a ffosydd gwlyb yn cynnig adnodd ychwanegol hefyd. Pan fyddant yn eu llawn dwf, byddai'r coetir planhigfa lydanddail yn darparu nodweddion llywio drwy'r dirwedd leol a allai gael eu defnyddio gan foch daear yn cymudo.
Dyfrgwn	Merddwr a choetir planhigfa lydanddail	Ni chofnodwyd unrhyw dystiolaeth o ddyfrgwn yn ystod yr ymweliad â'r safle, a datganodd yr astudiaeth ddesg bod y cofnod agosaf 0.44 cilometr i'r gogledd orllewin o'r safle. Ar sail dewisiadau cynefin hysbys y rhywogaeth hon, diffyg cyrsiau dŵr mwy a nodweddion ar gyfer mannau gorffwys, nid ystyrir bod y cynefinoedd ar y safle yn ddigonol i gynnal dyfrgwn yn magu. Fodd bynnag, gallai'r pyllau a ffosydd gwlyb ar y safle gynnig adnodd porthi ar gyfer y rhywogaeth hon. Mae'r tarfu presennol gan yr adeiladu a'r defnydd o'r safle fel cyfleuster stacio HGV 24 awr, yn lleihau addasrwydd y safle ar gyfer dyfrgwn yn cymudo. Fel y nodwyd ar gyfer ystlumod a moch daear uchod, byddai'r coetir planhigfa yn aeddfedu yn darparu cynefin cymudo addas i ddyfrgwn yn yr ardal leol.
Draenogod	Cynefinoedd glaswelltir, coetir planhigfa lydanddail a phrysgwydd	Mae'r cynefinoedd hyn o fewn ardal yr astudiaeth yn darparu cynefin porthi a nythu addas cyfyngedig i ddraenogod oherwydd y glaswelltir corslyd, dwrlawn. Fel y nodwyd ar gyfer rhywogaethau mamaliaid uchod, byddai'r coetir planhigfa yn aeddfedu yn darparu cynefin cymudo addas i ddraenogod yn yr ardal leol.
Mamaliaid eraill	Cynefinoedd glaswelltir, prysgwydd, coetir planhigfa lydanddail, merddwr a chloddiau pridd	Mae'r cynefinoedd hyn yn ardal yr arolwg yn darparu cynefin addas i gynnal mamaliaid eraill fel ffwlbartiaid, mincod, cwningod ( <i>Oryctolagus cuniculus</i> ) a llwynogod ( <i>Vulpes vulpes</i> ).
Ymlusgiaid	Tir pori brwynog/ cynefinoedd glaswelltir, tir moel, prysgwydd, merddwr a brigadau caregog	Mae ardaloedd lleol o dir pori brwynog a glaswelltir gwael, corslyd wedi'i led-wella, brigadau caregog ac ymylon pyllau yn cynnig cynefin porthi, lloches a thorheulo addas i gynnal rhywogaethau ymlusgiaid cyffredin fel madfallod a nadroedd defaid. Nododd cofnodion bresenoldeb ymlusgiaid o fewn 1 cilometr ac mae tystiolaeth anecdotaidd gan ecolegydd yr awdurdod lleol yn cadarnhau hyn. Pan fydd y coetir planhigfa lydanddail yn aeddfedu, byddai hyn yn darparu cynefin addas ychwanegol i rywogaethau ymlusgiaid.
Amffibiaid	Prysgwydd, glaswelltir, brigadau caregog, merddwr a choetir planhigfa lydanddail	Mae cynefin dyfrol sy'n cynnwys merddwr dros dro, ffosydd gwlyb a'r pwll gwanhau presennol ar y safle, yn ychwanegol at gynefin daearol fel glaswelltir, prysgwydd a brigadau caregog, yn darparu cynefin addas i rywogaethau amffibiaid cyffredin fel brogaod ( <i>Rana temporaria</i> ) a llyffantod dafadenog, sef rhywogaeth Adran 7 o'r pwysigrwydd pennaf. Nodwyd griffit brogaod yn y pwll gwanhau presennol yn ystod yr ymweliad â'r safle sy'n cadarnhau hyn (Atodiad B, TN6). Er yr ystyrir bod y pwll gwanhau presennol ar y safle yn addas i gynnal madfallod dŵr cribog, ni chanfuwyd unrhyw rai ohonynt yn ystod yr arolygon eDNA a phresenoldeb/absenoldeb. Pan fydd y coetir planhigfa lydanddail yn aeddfedu, byddai hyn yn darparu cynefin addas ychwanegol i amffibiaid. Byddai'r ardal wlyptir a fyddai'n cael

Nodwedd	Lleoliad / Cynefinoedd	Asesiad
Infertebratau	Glaswelltir, prysgwydd, tir moel, coetir planhigfa lydanddail, merddwr a brigiadau caregog	ei gosod fel rhan o'r System Ddraenio Gynaliadwy (SuDS) yn cael ei dylunio gyda nodweddion bywyd gwyllt a byddai'n cynyddu'r cynefin addas i amffibiaid yn y dyfodol.  Ystyrir bod y cynefinoedd hyn yn addas ar gyfer infertebratau, gyda chofnodion o 21 o rywogaethau Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi'u cofnodi o fewn 1 cilometr i'r safle.

Ffynhonnell: Mott Macdonald Limited, 2021

## 6 Cyfyngiadau Ecolegol ac Asesiad Ecolegol

### 6.1 Asesiad o'r Effeithiau Posibl

O adolygiad o'r gwaith arfaethedig, darperir asesiad cychwynnol o'r llwybrau effeithiau posibl a'r cyfyngiadau a grëir ar y cynefinoedd ecolegol a'r rhywogaethau a nodwyd uchod yn Nhabl 6.1 isod.

**Tabl 6.1: Asesiad o Effeithiau Posibl y Gwaith Arfaethedig**

Nodwedd	Lleoliad	Lefel Warchodaeth	Asesiad
<b>Safleoedd Dynodedig</b>			
Ynys Môn / Anglesey	Safle o fewn	AHNE	Gallai effeithiau posibl ar y dynodiadau hyn ddeillio o weithgarwch adeiladu sy'n gysylltiedig â datblygu'r safle, gan gynnwys mwy o swm, goleuadau a llygredd o darfu gan silt a thanwydd/ireidiau. Mae'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safleoedd dynodedig wedi'u hystyried fel rhan o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Byddai cynllun draenio priodol a Chynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cael eu paratoi hefyd i lywio'r gwaith arfaethedig er mwyn cyfyngu ar unrhyw effeithiau hydrolegol niweidiol posibl.
Beddmanarch-Cymyran	1 cilometr i'r dwyrain	SoDdGA	
Anglesey Terns / Morwenoliad Ynys Môn	1.15 cilometr i'r gogledd	AGA	
North Anglesey Marine / Gogledd Môn Forol	1.4 cilometr i'r gogledd	ACA	
Glannau Ynys Gybi / Holy Island Coast	1.93 cilometr i'r gorllewin	ACA ac AGA	
Dynodiadau eraill	>1.7 cilometr	WS	
<b>Cynefinoedd</b>			
Cynefinoedd Blaenoriaeth	Brigiadau caregog mewndirol i'r gogledd a'r gogledd ddwyrain o'r safle	Cynefin Blaenoriaeth o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 20016 (Cynefinoedd Brigiadau Caregog a Sgri Mewndirol)	Ni ragwelir unrhyw effeithiau uniongyrchol ar y brigiadau caregog am eu bod yn cael eu cadw fel rhan o'r gosodiad dangosol (Atodiad B, TN1, TN4 a TN11) tra byddai llwch neu halogyddion eraill yn gallu effeithio ar y cynefin.
	Glaswelltir asid, heb ei wella	Glaswelltir Blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU	Ni ragwelir unrhyw effeithiau uniongyrchol ar y glaswelltir heb ei wella am ei fod yn cael ei gadw fel rhan o'r gosodiad dangosol (Atodiad B, TN11) tra byddai llwch neu halogyddion eraill yn gallu effeithio ar y cynefin. Rhagwelir y byddai'r rhain yn cael eu rheoli gan fesurau arfer gorau a bennir mewn CEMP.
	Merddwr (Pyllau)	Cynefin Blaenoriaeth o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 20016 (Dŵr Merddwr Agored a Chamlesi)	Ni ragwelir unrhyw effeithiau uniongyrchol ar y pwll gwanhau presennol am ei fod yn cael ei gadw fel rhan o'r gosodiad dangosol (Atodiad B, TN9) tra byddai llwch neu halogyddion eraill yn gallu effeithio ar y cynefin. Rhagwelir y byddai'r rhain yn cael eu rheoli gan fesurau arfer gorau a bennir mewn CEMP. Byddai'r pwll gwanhau sydd newydd ei greu yn cael ei golli fel rhan o'r cynnig, fodd bynnag, am mai yn ddiweddar y cafodd ei adeiladu nid yw'n cael ei

Nodwedd	Lleoliad	Lefel Warchodaeth	Asesiad
			ystyried yn gynefin o bwysigrwydd arwyddocaol eto oherwydd y diffyg llystyfiant ar gyfer amffibiaid yn magu. Byddai unrhyw waith i'r pwll yn cael ei wneud gan ddilyn canllawiau arfer gorau, pe bai rhai rhywogaethau infertebratau ac amffibiaid cyffredin eisoes yn defnyddio'r pwll.
<b>Rhywogaethau a Warchodir</b>			
Adar	Tir moel, prysgwydd a chynefinoedd glaswelltir	Mae'r holl adar gwyllt wedi'u gwarchod o dan Ddeddf 1981. Mae'n drosedd cymryd, difrodi neu ddinistrio nyth neu wyau unrhyw aderyn gwyllt tra'i fod yn cael ei ddefnyddio neu'i adeiladu. Rhoddir gwarchodaeth ychwanegol i rywogaethau Atodlen 1 rhag tarfu yn ystod y cyfnod nythu.	Rhagwelir colli ardal sylweddol o dir moel ac ardaloedd bach o gynefin prysgwydd / glaswelltir ymylol ar gyfer rhywogaethau adar sy'n nythu ar y ddaear ac mewn prysgwydd. Fodd bynnag, gallai'r tarfu presennol gan yr adeiladu atal y tir moel rhag cael ei ddefnyddio. Byddai creu a gwella cynefinoedd fel rhan o'r cynnig yn lleihau unrhyw effeithiau niweidiol hirdymor ar boblogaethau adar yn yr ardal leol.
Ystlumod	Merddwr, coetir planhigfa lydanddail, prysgwydd a glaswelltir	Mae rhywogaethau ystlumod yn cael eu gwarchod o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), Deddf 1981 ac maent hefyd wedi'u rhestru o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Caerdydd. Yn gryno, mae'n drosedd i ladd, anafu, aflonyddu neu ddal unrhyw ystlumod yn fwriadol neu ddifrodi, dinistrio neu rwystro mynediad i'w clwydfannau.	Byddai'r cynllun arfaethedig yn arwain at golli cynefin i ystlumod sy'n cymudo ac yn porthi trwy gollu ardaloedd bach o gynefin prysgwydd / glaswelltir ymylol a symud y pwll gwanhau newydd, a allai lleihau niferoedd infertebratau fel adnodd porthi yn y tymor byr. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd effeithiau hirdymor. Mae'r potensial gan waith gweithredu i darfu ar y rhywogaeth hon os yw'n bresennol, yn enwedig yn ystod y nos. Mae argymhellion o ran dylunio goleuadau wedi'u cynnwys yn Adran 7.
Moch daear	Merddwr, cynefinoedd glaswelltir, prysgwydd gwasgaredig a choetir planhigfa lydanddail	Mae moch daear yn cael eu gwarchod o dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992. Yn gryno, mae'n drosedd i ladd neu anafu mochyn daear, difrodi, dinistrio neu atal mynediad i frochfa moch daear, neu darfu ar fochyn daear pan fydd mewn brochfa, yn fwriadol.	Mae'r potensial gan waith gweithredu i darfu ar y rhywogaeth hon os yw'n bresennol, yn enwedig yn ystod y nos. Nid yw'r cwmpas gwaith presennol yn debygol o effeithio'n negyddol ar gynefin addas. Mesur diogelwch gweithio ar gyfer rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf (i'w cynnwys mewn CEMP), fel gorchuddio cloddiadau neu osod ysgolion mamaliaid.
Dyfrgwn	Merddwr a choetir planhigfa lydanddail	Mae dyfrgwn yn cael eu gwarchod o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (fel y'u diwygiwyd), Deddf 1981 ac maent wedi'u rhestru o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn gryno, mae'n drosedd i ladd, anafu, aflonyddu neu ddal dyfrgwn yn fwriadol neu ddifrodi, dinistrio neu rwystro mynediad i unrhyw strwythur sy'n cael ei	Mae'r potensial gan waith gweithredu i darfu ar y rhywogaeth hon os yw'n bresennol, yn enwedig yn ystod y nos. Nid yw'r cwmpas gwaith presennol yn debygol o effeithio'n negyddol ar gynefin addas. Mesur diogelwch gweithio ar gyfer rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf (i'w cynnwys mewn CEMP), fel lleihau golau yn disgyn ar gyrff dŵr.

Nodwedd	Lleoliad	Lefel Warchodaeth	Asesiad
		ddefnyddio i fagu neu orffwys.	
Draenogod	Cynefinoedd glaswelltir, coetir planhigfa lydanddail a phrysgwydd a phrysgwydd trwchus	Mae draenogod wedi'u rhestru o dan Adran 7 Rhywogaethau o'r Pwysigrwydd Pennaf o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac maent wedi'u gwarchod rhag rhai gweithredoedd creulon gan Ddeddf (Diogelu) Mamaliaid Gwylt 1996.	Ni ragwelir colli cynefin ar gyfer draenogod o fewn yr ardaloedd hyn fel rhan o'r gwaith arfaethedig. Mesur diogelwch gweithio ar gyfer rhywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf (i'w cynnwys mewn CEMP), fel gorchuddio unrhyw gloddiadau neu osod ysgolion mamaliaid i ddraenogod ddringo allan.
Ymlusgiaid	Cynefinoedd tir pori brwynog/ glaswelltir, tir moel, prysgwydd, merddwr a brigiadau caregog	Mae ymlusgiaid yn cael eu gwarchod o dan Ddeddf 1981, ac maent wedi'u rhestru o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn gryno, mae'n drosedd i ladd neu anafu ymlusgiaid.	Byddai'n angenrheidiol colli rhan fach o'r cynefin ymylol sy'n weddill yr ystyrir ei fod yn addas ar gyfer ymlusgiaid fel rhan o'r gwaith arfaethedig. Rhagdybiwyd bod ymlusgiaid yn bresennol, felly byddai gwaith clirio llystyfiant yn mynnu gwiriad cyn gweithio a mesurau gweithio sensitif yn lleol (gweler Adran 7) er mwyn osgoi risg bosibl i ymlusgiaid, fel y cytunwyd gyda'r awdurdod lleol.
Amffibiaid	Prysgwydd, glaswelltir, brigiadau caregog, merddwr a choetir planhigfa lydanddail	Mae madfallod dŵr cribo a llyffantod dafadenog wedi'u rhestru o dan Rhywogaethau o Bwysigrwydd Pennaf Adran 7 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.	Byddai'n angenrheidiol colli rhan fach o'r cynefin daearol ymylol sy'n weddill yr ystyrir ei fod yn addas ar gyfer amffibiaid fel rhan o'r gwaith arfaethedig. Yn ogystal, rhagwelir y bydd rhagor o gynefin yn cael ei golli drwy symud y pwll gwanhau newydd. Mae argymhellion arfer gorau mewn perthynas ag ymlusgiaid yn berthnasol hefyd ar gyfer amffibiaid cyffredin.
Infertebratau	Glaswelltir, prysgwydd, tir moel, coetir planhigfa lydanddail, merddwr a brigiadau caregog	Mae nifer o rywogaethau a ddatganwyd yn ystod yr astudiaeth ddesg wedi'u rhestru o dan Rhywogaethau o Bwysigrwydd Pennaf Adran 7 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.	Byddai'r gwaith arfaethedig yn arwain at golli cynefin yn rhannol drwy symud y pwll gwanhau newydd, a allai effeithio'n niweidiol ar rai rhywogaethau dyfrol yn y tymor byr. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd effeithiau hirdymor.

Ffynhonnell: Mott Macdonald Limited, 2021

## 6.2 Crynodeb o'r Cyfyngiadau Ecolegol

Ar sail y cynefinoedd sy'n bresennol ac yn dilyn yr asesiad o effeithiau cychwynnol uchod, mae'r prif gyfyngiadau ecolegol, y byddai angen rhoi ystyriaeth iddynt yn ystod dylunio'r fethodoleg weithio, wedi'u hamlinellu isod:

- Agosrwydd at safleoedd dynodedig statudol (SoDdGA, ACA ac AGA) - potensial am effeithiau hydrolegol ar statws dynodiad;
- Cynefinoedd blaenoriaeth - presenoldeb brigiadau caregog, glaswelltir asid heb ei wella a merddwr (pyllau) o werth cenedlaethol o fewn ffin y safle. Er nad yw coetir planhigfa lydanddail yn cael ei ystyried yn gynefin blaenoriaeth, pan fydd yn ei llawn dwf bydd y cynefin hwn o werth cynhenid ar lefel leol;
- Ystumod yn cymudo a phorthi - gan ddibynnu ar amseriad yr adeiladu a'r dyluniad goleuo; a,
- Dyfrgwn, moch daear a draenogod - gan ddibynnu ar amseriad yr adeiladu a'r dyluniad goleuo.

Rhagwelir y byddai angen mân waith clirio llystyfiant i hwyluso'r gwaith, felly byddai angen rhoi ystyriaeth i effeithiau posibl ar adar yn nythu, moch daear, draenogod, ymlusgiaid ac amffibiaid.

## 7 Argymhellion

Ar sail yr arolygon a gynhaliwyd a chwmpas y gwaith a ragwelir, fel y cynhwysir yn Adran 6, gwneir argymhellion isod ar gyfer arolwg ac asesiad pellach ynghyd â mesurau lliniaru a gwella sy'n debygol o fod yn briodol ar gyfer y cynllun.

### 7.1 Arolwg (gan gynnwys Gwiriadau Cyn Gweithio) ac Asesiad Pellach

Byddai angen yr arolwg ac asesiad pellach canlynol ar gyfer y cynllun:

- **Safleoedd Dynodedig:** Mae angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer datblygu yn agos at safleoedd dynodedig statudol;
- **Ymlusgiaid:** Rhagdybiwyd presenoldeb ymlusgiaid mewn cynefinoedd addas ar y safle, fel y cytunwyd gydag ecolegydd Awdurdod Lleol Ynys Môn. Dylid clirio llystyfiant cynefinoedd sy'n addas ar gyfer ymlusgiaid o fewn y cyfnod gweithgar ar gyfer ymlusgiaid, sef misoedd Mawrth i Hydref yn nodweddiadol (gan ddibynnu ar y tywydd). Dylid cynnal chwiliad â llaw mewn modd sensitif fel yr amlinellir yn Adran 7.2 cyn gwneud gwaith clirio.
- **Dyfrgwn a Moch Daear:** Argymhellir gwiriad cyn gweithio am arwyddion yn y maes o foch daear a dyfrgwn, lle mae cynefin addas ar ôl;
- **Amffibiaid:** Dylai'r gwaith o symud y pwll gwanhau sydd newydd ei adeiladu gael ei gwblhau yn ystod y gaeaf, pan fydd mwyaf y rhywogaethau amffibiaid yn eu cyfnod ar y tir. Argymhellir carthu'r pwll cyn symud er mwyn diogelu'r creaduriaid hynny sydd yn dal ynghwsg. Os caiff y gwaith ei wneud yn ystod y gwanwyn (tymor bridio ar gyfer amffibiaid), byddai angen i arfer gorau yn ystod gwaith draenio/llenwi'r pwll gael ei oruchwyllo gan ecolegydd; ac,
- **Adar:** Gwaith clirio llystyfiant o gynefin sy'n addas i adar yn nythu i'w wneud y tu allan i dymor nythu adar os oes modd, rhwng Chwefror ac Awst (yn gynhwysol), neu dylai gwaith clirio dan oruchwyliaeth gael ei ragflaenu gan wiriad am nythod gweithgar gan ecolegydd profiadol.

### 7.2 Lliniaru

Ar sail y cyfyngiadau a nodwyd, argymhellir mewnbwn ecolegol er mwyn llywio'r dylunio a'r ystyriaethau lliniaru canlynol fel y nodir isod:

- **Cadw a gwarchod:** Cynghorir pennu ffiniau'r ardaloedd cynefin blaenoriaeth yn glir cyn i waith ddechrau ar y safle. Dylid lleihau effeithiau niweidiol ar y coetir planhigfa lydanddail anaeddfed trwy ddyluniad y cynllun i gynnwys byffer priodol. Lle nad oes modd osgoi colled, argymhellir mesurau lliniaru i gynnwys gwaith plannu digolledu a gwella cynefinoedd, lle bo modd;
- **Goleuadau a Sŵn:** Gallai fod angen gwneud gwaith adeiladu yn ystod y nos a rhagwelir y bydd tarfu gan sŵn a golau yn disgyn yn ystod y gweithrediadau 24 awr sy'n gysylltiedig â'r Safle Rheoli Ffiniau. Mae dyluniad goleuo sensitif i'w roi ar waith i leihau golau yn disgyn ar nodweddion llinellog/ffiniau'r safle (yn enwedig ar y coetir planhigfa a'r pyllau) er mwyn lleihau effeithiau goleuadau artiffisial ar goridorau mamaliaid yn porthi/cymudo. Fel rhan o'r SDO, un cyfyngiad ar y dylunio yw na fyddai colofnau goleuadau yn fwy na 15m a byddent yn gyfeiriadol, â chwfl ac mor isel ag y bo'n ymarferol. Byddai lwcs a threiddiad goleuadau yn cael eu dylunio yn ôl gofynion parth E2<sup>25</sup> a byddai'n sicrhau bod coridor tywyll o amgylch perimedr y safle'n cael ei gadw, a lefelau lwcs o 0.74 lwcs gan mwyaf fyddai y tu allan i'r

<sup>25</sup> International Commission on Illumination (CIE) (2020) Guidance Note on Obtrusive Light GN01/20.

Ardal Ddatblygadwy + 1m. Ni fyddai tymheredd lliw y goleuadau yn fwy na 2700 kelvin, ac ni fyddai goleuadau sbectrwm glas yn cael eu defnyddio er mwyn atal effeithiau niweidiol ar llystyfiant y brigiad caregog;

- **Ymlusgiaid:** Dylai'r gwaith clirio llystyfiant gael ei ragflaenu gan chwiliad â llaw a dylid ei gynnal fesul cam mewn modd cyfeiriadol o dan oruchwyliaeth ecolegydd, gan ddefnyddio offer llaw (h.y. strimwyr a pheiriannau torri brws). Mae'r fethodoleg hon yn cynnwys toriad cyntaf i uchder o ryw 300mm gyda'r holl sgil-gynhyrchion yn cael eu symud o fewn 24 awr, ac yna ail doriad 48 awr yn ddiweddarach i uchder o ryw 150mm. Mae'r gwaith clirio cyfeiriadol hwn fesul cam yn cynorthwyo i wasgaru ymlusgiaid i'r ardal ehangach. Byddai'r gwaith yn cael ei wneud gan ddilyn Datganiad Dull Ymlusgiaid wedi'i eirio'n addas; a,

**CEMP:** Fel mesur diogelu adeiladu cyffredinol, dylid llunio Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP), neu gyfwerth, cyn dechrau gwaith ar y safle er mwyn pennu'r camau rhesymol ac ymarferol i'w cymryd i osgoi llygru'r amgylchedd amgylchynol ac i ddiogelu bywyd gwyllt. Byddai'r CEMP yn cynnwys cynllun draenio helaeth a fyddai'n cael ei weithredu i atal effeithiau niweidiol hydrolegol i safleoedd dynodedig statudol. Byddai'r holl waith yn cael ei wneud yn unol â chanllawiau'r 'Environmental Good Practice on Site Guide' (CIRIA, C741<sup>26</sup>) fel y safon.

Byddai dulliau clirio llystyfiant sensitif a amlinellir ar gyfer ymlusgiaid yn lleihau unrhyw effeithiau posibl ar foch daear, draenogod ac amffibiaid cyffredin.

### 7.3 Gwelliannau Ecolegol

Ar lefel genedlaethol, mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn mynnu bod awdurdodau lleol yn gweithredu mesurau i hyrwyddo cadwraeth y dirwedd a bioamrywiaeth. Argymhellir felly, er mwyn cydymffurfio â'r polisi cynllunio uchod, yr achubir ar y cyfle i ymgorffori gwelliannau ecolegol yn y datblygiad.

Gellid ystyried y gwelliannau canlynol o fewn yr ardal weithio a'u defnyddio i hwyluso draeniad ar y safle:

- Creu ardal wlyptir bwrpasol (SuDS) yn y cornel de ddwyreiniol yn gyfagos i'r pwll gwanhau presennol, yn cynnwys porfa arw, gerddi corslyd a gaeafleoedd ar ffurf pentyrrau cerrig a boncyffion. Byddai hyn yn creu cynefin addas i infertebratau, ymlusgiaid ac amffibiaid;
- Cynllun tirwedd feddal wedi'i lunio i gynnwys fflora brodorol y gwyddys eu bod yn llesol i infertebratau ar laswelltir iseldir a'r rhywogaethau hynny y gwyddys eu bod yn gwrthsefyll yr amodau tywydd garw ar Ynys Môn, fel cyll (*Corylus avellana*), eithin a'r ddraenen ddu;
- Adfer y gwaith plannu presennol ar y bwnd ymylol lle mae coed wedi methu a phlannu plygiau yn y bylchau i greu nodwedd linelllog ddi-dor o amgylch perimedr y safle, gan gadw coridor ar gyfer mamaliaid ac adar yn cymudo/porthi/nythu. Defnyddio llwyni a phrysgwydd ychwanegol i wella'r isdyfiant a lled y coridor bywyd gwyllt i 2m man lleiaf er mwyn i famaliaid, ymlusgiaid, amffibiaid, adar ac infertebratau elwa ohonynt; ac
- Nid oes unrhyw goed addas o fewn ffin y datblygiad i osod blychau ystlumod/adar, a byddai'r adeiladau o fewn y safle yn gweld gormod o darfu i'w hystyried yn addas ar gyfer adeiladu'r gwelliannau ar gyfer ffawna. Fodd bynnag, pan fydd y blanhigfa'n aeddfedu, byddai hyn yn darparu cynefin ychwanegol i'r grwpiau rhywogaethau hyn.

### 7.4 Dilysrwydd Data'r Arolwg a'r Asesiad

Yn unol â chanllawiau CIEEM (2019) ar hyd oes arolygon ecolegol a chan ystyried y cynefinoedd sy'n bresennol a'r potensial ar gyfer rhywogaethau a warchodir ar y safle, ystyrir bod canlyniadau'r adroddiad hwn yn ddilys am hyd at 12-18 mis. Yn dilyn hyn, dylai data'r

<sup>26</sup> CIRIA (2015) Environmental good practice on site guide (fourth edition) (C741) Ionawr 2015

arolwg gael ei adolygu ac, os yw'n briodol, ei ddiweddarau i sicrhau bod unrhyw asesiad ac argymhellion yn parhau'n ddilys.

## 8 Casgliadau

Cynhaliwyd Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol i asesu'r effeithiau posibl ar ddynodiadau ecolegol a chynefinoedd a rhywogaethau a warchodir ac a nodir, yn ymwneud â'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig.

Mae ôl troed y gwaith yn cynnwys, yn bennaf, ardal llawr caled a thir moel gydag un pwll gwanhau presennol a phwll gwanhau ychwanegol a oedd wrthi'n cael ei adeiladu ar adeg cynnal yr arolwg. Mae cynefinoedd ymylol yn cynnwys glaswelltir wedi'i led- wella sy'n cael ei bori a thir pori brwynog gyda phrysgwydd, coetir planhigfa lydanddail, cloddiau pridd, a chynefinoedd blaenoriaeth - brigiadau caregog a glaswelltir asid, heb ei well. Mae'r rhain yn darparu cynefin addas ar gyfer nifer o rywogaethau a warchodir a/neu rywogaethau a nodir, gan gynnwys ystlumod, adar, moch daear, dyfrgwn, draenogod, amffibiaid, ymlusgiaid ac infertebratau. Gyda'i gilydd, mae'r grwpiau rhywogaethau a'r cynefinoedd blaenoriaeth hyn yn ffurfio'r prif gyfyngiadau i'r gwaith arfaethedig.

Byddai gwiriadau cyn gweithio yn cael eu hargymell mewn perthynas ag ymlusgiaid, adar, dyfrgwn, moch daear ac amffibiaid. Gwneir argymhellion yn nhermau lliniaru a chyfleoedd i wella.

# Atodiadau

## A. Cynllun Cynefinoedd Cam 1

## B. Nodiadau Targed

Tabl B.1: Nodiadau Targed yr Arolwg Cynefinoedd Cam 1

Rhif y Nodyn Targed	Disgrifiad	Llun
TN1	Brigiad wedi'i orchuddio â glaswellt gydag eithin, gweinwellt unflwydd, wedi'i bori'n dynn gan ddefaid gyda bysedd y cŵn ( <i>Digitalis sp.</i> ) a bogail y forwyn ( <i>Umbilicus rupestris</i> ) yn bresennol	
TN2	Coed anaeddfed ifanc yn cynnwys y blanhigfa lydanddail ar hyd yr ehangder gogledd ddwyreiniol ac yn gyfagos i gylchfan Parc Cybi (Atodiad D, Ffigur D.4)	

**Rhif y Nodyn Targed**    **Disgrifiad**

**Llun**

TN3

Merddwr wedi'i fwydo gan ffos ddraenio  
wlyb gyda brwyn caled yn bresennol



TN4

Brigiad caregog wedi'i orchuddio â  
glaswellt rhwng y llawr caled a thir moel



**Rhif y Nodyn Targed**   **Disgrifiad**

**Llun**

TN5

Ardal o ferddwr a dŵr ffo gyda brwyn yn bresennol i'r de yn rhedeg ar hyd y clawdd pridd.



TN6

Grifft brogaod yn y pwll gwanhau presennol.



TN7

Llystyfiant ar dir gwlyb



**Rhif y Nodyn Targed**   **Disgrifiad**

**Llun**

TN8

Tir moel o ganlyniad i gloddio  
archaeolegol yn ystod Cam 2 y  
datblygiad



TN9

Pwll gwanhau presennol



TN10

Merddwr o fewn ehangder de orllewinol  
y safle



Rhif y Nodyn Targed

Disgrifiad

Llun

TN11

Brigiad caregog yn gyfagos i ffordd gyswllt Parc Cybi gyda glaswelltir heb ei wella yn gysylltiedig ag ef. Mae'r rhywogaethau'n cynnwys: Bryoffytau - *Polytrichum juniperinum*, *Homalothecium sericeum*, *Hypnum lacunosum*, *Kindbergia praelonga* *Calliergonella cuspidata*  
Cennau - *Peltigera* sp., *Cladonia* spp. *Cladonia fimbriata* agg.  
Planhigion fasgwlaidd - Briweg y Cerrig (*Sedum anglicum*), Pys y ceirw (*Ornithopus perpusillus*), Dant y llew (*Taraxacum sect. Celtica/Hamata*), Peiswellt (*Festuca cf. ovina*), Troed y golomen (*Geranium molle*), Clust y Gath (*Hypochaeris radicata*), Meillion Gwyn (*Trifolium repens*), Meillion Melyn Bychain (*Trifolium dubium*), Maeswellt (*Agrostis cf. capillaris*), ac Eithin (*Ulex europaeus*).



TN12

Tomen uwchbridd i'r gogledd ddwyrain



**Rhif y Nodyn Targed**

**Disgrifiad**

**Llun**

TN13

Coed planhigfa lydanddail ar frig clawdd pridd, gyda ffensys ar ei hyd ar y ddwy ochr.



Source: Mott MacDonald 2021

## C. Cynllun Safleoedd Statudol

Cafwyd gwybodaeth am safleoedd dynodedig ar gyfer prosiect Llywodraeth Cymru/Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ac fe'i rhennir trwy gytundeb.

## D. Ffotograffau

**Ffigur D.1: Llawr caled presennol**



Ffynhonnell: Mott MacDonald Limited, 2021

**Ffigur D.2: Bryoffytau a chennau yn gysylltiedig â'r brigiad caregog ar hyd y ffordd gyswllt**



Ffynhonnell: Mott MacDonald Limited, 2021

**Ffigur D.3: Glaswelltir asid heb ei wella gyda rhywogaethau anghyffredin - pys y ceirw (yn y llun)**



Ffynhonnell: Mott MacDonald Limited, 2021

**Ffigur D.4: Coetir planhigfa lydanddail yn gyfagos i gylchfan Parc Cybi**



Ffynhonnell: Mott MacDonald Limited, 2021

**Ffigur D.5: Ffos fas yn ffinio'r ehangder  
de ddwyreiniol (oddi ar y safle)**



Ffynhonnell: Mott MacDonald Limited, 2021

## **E. Adroddiad yr Arolygon o'r Fadfall Ddŵr Gribog**

